# Ffurflen asesu’r effaith ar y Gymraeg

Mae’r asesiad hwn o’r effaith ar y Gymraeg yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ystyried egwyddorion a gofynion ein safonau o ran y Gymraeg mewn perthynas â’r safonau llunio polisi (safonau 84 i 89) ac i sicrhau cydymffurfedd â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhaid darllen y canllawiau ar yr asesiad o’r effaith ar y Gymraeg cyn llenwi’r ffurflen hon er mwyn sicrhau bod yr holl ystyriaethau’n cael eu hystyried, ac er mwyn sicrhau cydymffurfedd â’n safonau o ran y Gymraeg.

(This form is also available in English)
(Mae’r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd)

| | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru |
| Enw’r tîm sy’n cwblhau’r asesiad | Tîm y Rhaglen Tirweddau Dynodedig a Chynghorydd Arbenigol y Gymraeg |
| Dyddiad cychwyn yr asesiad | Hydref 2024 |
| Rhif y fersiwn | Fersiwn 1<br><br>Diweddarwyd fersiwn 2 ym mis Gorffennaf 2025 yn dilyn Penderfyniad Bwrdd NRW |

| | |
|---|---|
| Dyddiad terfynu'r asesiad | |
| Dyddiad adolygu'r asesiad os ydyw'n berthnasol | Bydd yr asesiad yn parhau i gael ei adolygu drwy gydol oes y prosiect |

## Rhowch ddisgrifiad o'r cynnig, ei nodau a'i amcanion

Yn ei Rhaglen Lywodraethu (2021–2026), nodwyd gan Lywodraeth Cymru ei bwriad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yn seiliedig ar Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (a elwid gynt yn ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE)).

CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol neu dirwedd genedlaethol (AHNE) newydd. O ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i werthuso'r achos dros y dynodiad hwn.

Mae Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol i CNC ddynodi parciau cenedlaethol newydd yng Nghymru.

Mae adran 5(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn rhestru'r meini prawf y mae'n rhaid i CNC eu hystyried wrth ystyried dynodiad parc cenedlaethol. Mae'r ddeddf yn diffinio bod yn rhaid i barc cenedlaethol fod yn 'ddarn mawr o dir yng Nghymru' sydd, yn ôl CNC, yn bodloni gofynion statudol oherwydd:

(a) ei harddwch naturiol, a

(b) y cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored

Gan ystyried ei gymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth, ystyrir y gellid ei ddynodi fel parc cenedlaethol ar sail y ffaith ei fod yn arbennig o ddymunol. Felly, harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yw'r meini prawf ar gyfer dynodi y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ardal gael ei dynodi. Mae dibenion parc cenedlaethol, ar ôl ei ddynodi, wedi'u hamlinellu yn adran 5(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 fel a ganlyn:

- gwarchod a gwella ei harddwch naturiol, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol, a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hyn

Nid yw dibenion dynodiad ar ôl ei ddynodi yr un peth â'r meini prawf ar gyfer dynodi y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn dynodi'r ardal. Gellir anwybyddu'r gwahaniaeth hwn a allai arwain at gamddealltwriaeth o'r hyn y gellir ei ystyried wrth ymgymryd â phroses ddynodi.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfarwyddo CNC i ystyried yr holl elfennau hyn.

Mae parciau cenedlaethol yn bwysig i'n hamgylchedd. Maent yn ein helpu ni i wneud y canlynol:

- mynd i'r afael â'r argyfwng natur
- cyflawni twristiaeth fwy cynaliadwy

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi bod gan barciau cenedlaethol Cymru ddau ddiben:

- cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parciau cenedlaethol, a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig (y parc)

Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol ddyletswyddau cyfreithiol i wneud y canlynol:

- paratoi cynllun rheoli ar gyfer ardal y parc cenedlaethol, ymgynghori arno, a'i gyhoeddi
- ceisio hybu llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol sy'n rhan o'r parc cenedlaethol
- paratoi'r cynllun datblygu lleol, ymgynghori arno, a'i gyhoeddi
- ymgymryd â swyddogaeth cynllunio rheoli'r datblygiad lleol

Fel yr awdurdod dynodi statudol, disgwylir i CNC wneud y canlynol:

- ymgynghori â chymunedau lleol ac awdurdodau lleol perthnasol
- asesu'r nodweddion daearyddol yn yr ardal
- gwirio addasrwydd yr ardal yn erbyn diffiniadau cyfreithiol o'r hyn y dylai parc cenedlaethol fod
- pennu ffiniau delfrydol y parc newydd
- gwneud argymhellion i'n Gweinidogion

Mae'r ardal arfaethedig a nodwyd ar gyfer parc cenedlaethol newydd posibl yn cwmpasu ardaloedd o fewn awdurdodau lleol Powys, Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Gwynedd.

Map o ffiniau'r ardal ymgeisiol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd arfaethedig

## A ydyw'r cynnig yn cyfrannu at ddeddfwriaeth neu strategaethau'r Gymraeg sydd eisoes ar waith?

Mae gwaith CNC, wrth werthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd, wedi cydymffurfio â safonau Cymraeg CNC wrth sicrhau bod yr holl wybodaeth gyhoeddus a gyhoeddir ar gael yn y Gymraeg, gyda sesiynau ymgysylltu, ar-lein ac wyneb yn wyneb yn cynnig cyfle i eraill ymgysylltu â ni yn y Gymraeg yn rhagweithiol. Roedd yr holl wybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad ar ffiniau'r parc yn ystod hydref 2024 ar gael yn y Gymraeg ac yn cynnig cyfle i roi adborth yn y Gymraeg. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth o dan y pennawd 'A allai'r cynnig effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg' isod am y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a wnaed.

Byddai creu awdurdod parc cenedlaethol newydd yn creu sefydliad cyhoeddus newydd, a byddai'n cyfrannu at y ddeddfwriaeth a'r strategaethau canlynol sydd ar waith eisoes o ran y Gymraeg fel rhan o'u dyletswyddau deddfwriaethol:

1. **Erthygl 7 – Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop**

   O dan Erthygl 7 – Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop (sy'n cynnwys y Gymraeg), mae'n ddyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i wneud y canlynol:

   - diogelu ieithoedd lleiafrifol drwy hwyluso ac annog eu defnydd mewn bywyd cyhoeddus a phreifat
   - ystyried yr effaith y gall y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ei chael ar y defnydd o'r iaith
   - rhwymedigaeth i ymgynghori a cheisio barn y bobl hynny sy'n defnyddio'r Gymraeg

2. **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

   Mae sefydliadau cyhoeddus yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yng Nghymru, yn gyfartal â'r gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer eu gweithlu eu hunain drwy ddarparu cyfleoedd i gydweithwyr weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu cyfleoedd hyfforddi i ddatblygu eu sgiliau iaith gyda'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

   Wrth weithredu'r safonau, byddai'n ofynnol i'r awdurdod asesu pob swydd newydd neu swydd wag o ran sgiliau'r Gymraeg. Bydd angen i bob rôl yn yr awdurdod sy'n wynebu'r cyhoedd ac sy'n ymdrin â chwsmeriaid, partneriaid, rhanddeiliaid a chymunedau lleol ac ati allu darparu gwasanaeth Cymraeg o safon digonol.

Mae adrannau 26 a 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ymwneud â'n safonau llunio polisi (safonau 84 i 89) yn ein polisïau safonau'r Gymraeg ac yn blaenoriaethu:

- yr angen i sefydliadau cyhoeddus ystyried pa effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu ddibwys) y gall penderfyniadau eu cael ar y defnydd o'r iaith, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Byddai awdurdod parc cenedlaethol newydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Un o ofynion y rheoliadau hyn fydd mabwysiadu strategaeth bum mlynedd sy'n amlinellu sut mae'r awdurdod yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ardal y parc cenedlaethol.

3. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredin sy'n rhwymo mewn cyfraith, sef y saith nod llesiant. Mae'r saith nod llesiant fel a ganlyn: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac, yn olaf, Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

I'r awdurdod, y ddyletswydd graidd yn y ddeddf (y ddyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i'r awdurdod osod amcanion llesiant sy'n cynyddu ei gyfraniad i'r eithaf at gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir uchod, a rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion llesiant hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

4. **Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru:** Nod Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru) yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae gan y strategaeth dair thema ar gyfer cynyddu defnydd yr iaith:

**Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

- Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Addysg statudol
- Addysg ôl-orfodol
- Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau

**Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

- Y gweithle
- Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- Gwasanaethau

**Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

- Cymuned a'r economi
- Diwylliant a'r cyfryngau
- Cymru a'r byd ehangach
- Technoleg ddigidol
- Seilwaith ieithyddol
- Cynllunio ieithyddol
- Gwerthuso ac ymchwil

Byddai awdurdod parc cenedlaethol newydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cymraeg 2050, drwy ei waith craidd fel awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, gan hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Gymraeg, cyflogi siaradwyr Cymraeg, darparu cyfleoedd i'w staff ddatblygu sgiliau iaith a darparu eu gwasanaethau yn y Gymraeg i'r cyhoedd, cwsmeriaid, rhanddeiliaid a staff.

5. Cofnodion amgylchedd hanesyddol yng Nghymru

   O dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chadw cofnod amgylchedd hanesyddol cyfredol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid iddynt hefyd wneud y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn hygyrch i'r cyhoedd a darparu cyngor a chymorth i'r rheini sy'n dymuno casglu a deall yr wybodaeth sydd ynddynt.


Mae parciau cenedlaethol yn un o'r cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau uchod a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, a chyfrannu at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i'w cadw'n gyfredol, gan ddefnyddio'r cofnodion hyn wrth arfer eu swyddogaeth.

Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod enwau lleoedd hanesyddol Cymru yn parhau i gael eu defnyddio ar lafar ac yn cael eu cofnodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal ddaearyddol neu ardaloedd daearyddol dan sylw os ydyw'n berthnasol

Defnyddiwch ddata Cyfrifiad 2021 Y Gymraeg, Cymru – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk) ac Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan Lywodraeth Cymru Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Hydref 2022 i Fedi 2023 | LLYWODRAETH.CYMRU

| |
|---|
| Mae'r map isod yn dangos sgiliau siarad Cymraeg y rheini sy'n byw yn yr ardal ymgeisiol ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig |


Welsh Speaking Skills in the Candidate Area
Candidate Area
Local authority
Welsh border
Welsh Language by Output Area
Welsh speaking population
<= 10%
10-20%
20-30%
30-40%
40-50%
50-60%
60-70%
70-80%
80-90%
*statistics derived from the total population of the output areas, not population within the candidate area
Conwy - Conwy
Sir Ddinbych - Denbighshire
Sir y Fflint - Flintshire
Wrecsam - Wrexham
Gwynedd - Gwynedd
Shropshire
Powys - Powys
LLANGOLLEN
N
0
5
10
km
Map Scale: 1:200,000 @ A3
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey Licence number AC0000849444. © Office of National Statistics (ONS) Contains OS data © Crown Copyright and database right 2020. Esri, CGIAR, USGS, Esri, USGS

Mae’r map uchod o’r ardal ymgeisiol yn dangos yr ardaloedd o fewn y ffiniau arfaethedig lle gellir canfod gwahanol dwyseddau o siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn yr ardal. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg sy’n byw o fewn y ffiniau yn isel mewn rhai o’r cymunedau, mae’r map yn dangos bod nifer o gymunedau lle mae dros 50% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg, lle mae’r iaith yn cael ei defnyddio fel iaith gymunedol. Yn ystod ein sesiynau profiad y cyhoedd roedd gan nifer o’r rheini a fu’n bresennol ymwybyddiaeth dda o’r diwylliant a’r iaith a pha mor bwysig yw hi i’r ardal, ac roedd nifer wedi cael gwersi Cymraeg yn yr ysgol, er nad oeddent yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.


Mae’r map yn dangos mai’r ardaloedd â’r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg yw’r cymunedau ffermio a gwledig traddodiadol o fewn y ffiniau arfaethedig. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae 29.5% o’r rheini sy’n gweithio ym myd amaeth yn siaradwyr Cymraeg, a dyma’r sector sy’n cyflogi’r niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae’r map o’r ardal ymgeisiol uchod hefyd yn cefnogi’r ystadegyn hwn.

Mae’r rheini sy’n gweithio ym myd amaeth wrth wraidd cymunedau gwledig lle defnyddir yr iaith yn ddyddiol, gyda’r mwyafrif yn byw ac yn cynnal eu busnes trwy gyfrwng y Gymraeg yn naturiol yn eu bywydau bob dydd. Mae’r cymunedau ffermio hyn hefyd yn helpu i gynnal y traddodiadau diwylliannol a’r ffordd o fyw sy’n cael eu trosglwyddo i genedlaethau’r dyfodol.

Yn hanesyddol mae ffermio wedi chwarae rhan fawr yn hanes a diwylliant Cymru, gan fod y dirwedd a’r iaith yn cydblethu. Dim ond un enghraifft yw enwau caeau o sut mae ffermio a’r defnydd a’r ffordd y ffermiwyd y caeau wedi dylanwadu ar eu henwau, sydd wedi cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i’r nesaf ac yn parhau i gael eu defnyddio hyd heddiw. Yn ogystal, dylid nodi mai enwau Cymraeg yn unig sydd gan y mwyafrif o’n henwau topograffig, sy’n disgrifio mynyddoedd, bryniau, dyffrynnoedd ac afonydd, ac yn adlewyrchu ymateb dynol uniongyrchol i’r amgylchedd.


**Data Cyfrifiad 2021**

Mae'r map isod yn dangos ble mae siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yn byw yn ôl Awdurdod Lleol, gyda'r canrannau uchaf yn y Gogledd-orllewin a'r isaf yn y De-ddwyrain.





Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2021

Mae'r map isod yn dangos yn fanylach ble o fewn Awdurdodau Lleol mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn yn byw. Gyda'r ganran uchaf sy'n gallu siarad Cymraeg yn byw yng Ngogledd-orllewin Cymru.





Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth, 2021

Mae’r map isod yn dangos y newid yn y gyfran a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, rhwng 2011 a 2021




Source: Census of population, 2011 and 2021

Mae’r map isod yn dangos y newid yn y gyfran a oedd yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl ardal gynnyrch ehangach haen is, rhwng 2011 a 2021




Source: Census of population, 2011 and 2021

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 17.8% (538,300) o bobl yng Nghymru dros dair oed yn gallu siarad Cymraeg. Yr awdurdodau lleol â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (64.4%), Ynys Môn (55.8%), Ceredigion (45.3%) a Sir Gaerfyrddin (39.9%). Yr awdurdod lleol â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (73,600), ac yna Sir Gaerfyrddin (72,800). Gellir dod o hyd i siaradwyr Cymraeg ledled Cymru gyfan ac ym mhob awdurdod lleol, wrth gwrs.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, Sir Gaerfyrddin a welodd y gostyngiad mwyaf yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg, o 43.9% yn 2011 i 39.9% yn 2021. Gwelodd Powys, Sir Ddinbych, Sir Benfro a Cheredigion ostyngiad o ddau bwynt canran neu fwy yng nghyfran y

siaradwyr Cymraeg. Gwelwyd cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf

Nid yw'r dirywiad o fewn yr ardal ymgeisiol yn cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn Eryri (sy'n adlewyrchu polisi addysg Gwynedd, yn fwy na thebyg) a'r potensial i ganolbwyntio mwy ar gynllunio ieithyddol er mwyn creu newid cadarnhaol.

Ym mhob awdurdod lleol a welodd ostyngiad yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg, roedd gostyngiad hefyd yng nghyfanswm y siaradwyr.

**Dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg**

- Mae 17.8% (538,300) o boblogaeth Cymru sy'n dair oed neu hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 23,700 ers 2011, pan oedd 19% (562,000) yn gallu siarad Cymraeg.
- Mae'r boblogaeth wedi codi i 3,107,500, sef y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, a chynnydd o 1.4% (44,000) ers Cyfrifiad 2011 pan oedd y boblogaeth yn 3.06 miliwn.
- Ganwyd 29.1% (905,000) o drigolion y tu allan i Gymru. Mae hyn yn gynnydd o 1.8% (68,000) ers Cyfrifiad 2011, gyda chynnydd o 23,000 o ran nifer y bobl a anwyd yn Lloegr sydd bellach yn byw yng Nghymru.

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos bod poblogaeth Cymru wedi cynyddu, a bod mwy o bobl a aned y tu allan i Gymru wedi'u cofnodi'n byw yma nag yng Nghyfrifiad 2011. Mae'r rheini a aned y tu allan i Gymru yn llai tebygol o gofnodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg na'r rheini a aned yma, ac mae hyn wrth gwrs yn dylanwadu ar y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg.

**Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Chyfrifiad 2021**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi dadansoddi a chyhoeddi data a dadansoddiadau ar y boblogaeth a'r cymunedau ledled Cymru yn ôl pob awdurdod lleol yn ei grynswth fel a ganlyn:

Sut mae bywyd wedi newid yn Sir y Fflint: Cyfrifiad 2021.

O ran y Gymraeg yn Sir y Fflint, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae gan Sir y Fflint boblogaeth o 155,000, ar ôl cynyddu 1.6% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 11.6% (17,980) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 1.5% o'i gymharu â Chyfrifiad 2011
- Mae 88.4% (137,020) yn methu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o 5,500 ers Cyfrifiad 2011
- Mae 47.9% (74,245) o'r boblogaeth wedi cael eu geni yn Sir y Fflint, tra bod 44.3% (68,665) wedi cael eu geni yn Lloegr

[Sut y mae bywyd wedi newid yn Sir Ddinbych: Cyfrifiad 2021]

O ran y Gymraeg yn Sir Ddinbych, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae gan Sir Ddinbych boblogaeth o 95,800, ar ôl cynyddu 2.2% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 22.5% (21,555) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 2.1% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 77.5% (74,245) yn methu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o 3,800 ers Cyfrifiad 2011
- Mae 58.8% (56,400) o'r boblogaeth wedi cael eu geni yng Nghymru, tra bod 35.2% (33,700) wedi cael eu geni yn Lloegr

[Sut y mae bywyd wedi newid yn Wrecsam: Cyfrifiad 2021]

O ran y Gymraeg yn Wrecsam, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae gan Wrecsam boblogaeth o 135,100, ar ôl cynyddu 0.2% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 12.2% (16,482) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 0.7% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 87.8% (118,530) yn methu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o 2,400 ers Cyfrifiad 2011
- Mae 67.9% (98,100) o'r boblogaeth wedi cael eu geni yng Nghymru, tra bod 23.2% (31,400) wedi cael eu geni yn Lloegr

[Sut y mae bywyd wedi newid ym Mhowys: Cyfrifiad 2021]

O ran y Gymraeg ym Mhowys, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae gan Bowys boblogaeth o 133,200, ar ôl cynyddu 0.1% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 16.4% (21,844) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 2.2% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 83.6% (111,355) yn methu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o 3,500 ers Cyfrifiad 2011
- Mae 47% (62,604) o'r boblogaeth wedi cael eu geni yng Nghymru, tra bod 46.9% (62,470) wedi cael eu geni yn Lloegr

[Sut y mae bywyd wedi newid yng Ngwynedd: Cyfrifiad 2021]

O ran y Gymraeg yng Ngwynedd, mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae gan Wynedd boblogaeth o 117,400, ar ôl gostwng 3.7% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 64.4% (75,605) yn gallu siarad Cymraeg, sy'n ostyngiad o 1% ers Cyfrifiad 2011
- Mae 35.6% (41,794) yn methu siarad Cymraeg, sy'n gynnydd o 3,400 ers Cyfrifiad 2011
- Mae 66.9% (78,200) o'r boblogaeth wedi cael eu geni yng Nghymru, tra bod 27.1% (31,815) wedi cael eu geni yn Lloegr

I'w nodi – Gwynedd sydd â'r ganran a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ac yna Ynys Môn (55.8%) a Cheredigion (45.3%).

Cynllun gwaith ar y cyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar gydlyniaeth ystadegau ar y Gymraeg

**Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru**

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yng Nghymru yn amcangyfrif bod 27.7% (851,700) o bobl yng Nghymru dros dair oed yn gallu siarad Cymraeg. Plant a phobl ifanc yw 46.8% (237,600) o'r rheini sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran uchaf yng Ngwynedd 77.9% (93,600), Sir Ddinbych 34.4% (32,100), Sir y Fflint 19.1% (29,600), Wrecsam 24.6% (33,800), a Phowys 32.2% (41,100).

Mae 52.3% (93,300) o Sir Gaerfyrddin a 22.8% (83,300) o Gaerdydd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y nifer isaf o siaradwyr Cymraeg ym Mlaenau Gwent 14% (9,500) a Merthyr Tudful 18% (10,600).

Mae'n bwysig nodi yma y gellid esbonio'r gwahaniaeth yn y data rhwng y Cyfrifiad a'r arolwg blynyddol o'r boblogaeth yng Nghymru ar sail y ffynonellau data a ddefnyddiwyd a'r ffordd y caiff y data hyn eu casglu ac ati. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan mai dyma'r tro cyntaf i ddata'r Cyfrifiad ddangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, tra bod yr arolwg yn amcangyfrif bod y nifer yn cynyddu.

Canlyniadau a gwybodaeth y Cyfrifiad yw'r set ddata swyddogol ar gyfer y Gymraeg.

Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Hydref 2023 i Fedi 2024 | LLYW.CYMRU

**Y Comisiwn Cymunedau Cymraeg**

Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2024, a chyhoeddodd adroddiad ag argymhellion i Lywodraeth Cymru ddatblygu polisi cyhoeddus i gryfhau cymunedau Cymraeg sydd wedi dod o dan fygythiad cynyddol oherwydd mudo'r rheini sy'n siarad y Gymraeg allan o Gymru a'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mudo i Gymru o'r tu allan.

45614 Adroddiad interim gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

| |
|---|
| Mae'r adroddiad yn cydnabod bod yr economi, gweithleoedd Cymraeg, datblygu cymunedol, tai, cynllunio gwlad a thref, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, addysg a chynllunio ieithyddol yn y gymuned i gyd yn feysydd polisi pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw i helpu gyda'r heriau y mae cymunedau Cymraeg yn eu hwynebu. |

## A allai'r cynnig effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg?

Cynhaliodd CNC gyfnod ymgysylltu cynnar yn 2023, ac ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgysylltu yn 2023 yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, ac fe'i cynlluniwyd i rannu gwybodaeth am yr ardal werthuso, gwrando ar farn a chasglu gwybodaeth am faterion lleol. Cafodd y cyfnod ymgysylltu ei hysbysebu drwy dudalen we'r prosiect a'r cyfryngau cymdeithasol, a chafodd sylw mewn papurau newyddion lleol ac ar raglenni newyddion cenedlaethol gyda'r nos ar ITV a'r BBC.

Cymerwyd rhan gan dros 700 o bobl (619 wyneb yn wyneb a 105 ar-lein). Cafwyd 966 o ymatebion i'r holiadur, ac mae adroddiad cryno ar gael yn yr adroddiad a geir yn y ddolen isod: Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru Adroddiad Cyfnod Ymgysylltu 2023 Cyfoeth Naturiol Cymru.pdf

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 rhwng 7 Hydref 2024 a 16 Rhagfyr 2024. Rhannwyd map o'r ffiniau drafft (y cyfeirir ato fel yr 'ardal ymgeisiol') ochr yn ochr â chyfres o dystiolaeth newydd a gasglwyd yn 2023–2024, gan gynnwys:

Adroddiad ar rinweddau arbennig yr ardal, adroddiad ar y grymoedd sydd eisoes yn achosi newid i'r rhinweddau arbennig hyn, adroddiad yn amlinellu'r opsiynau rheoli sydd ar gael i fynd i'r afael â'r 'grymoedd dros newid' hynny, ac adroddiad gwerthuso manwl o'r dirwedd lle nodwyd pa ardaloedd y credid eu bod yn bodloni'r gofyniad statudol i'w cynnwys mewn parc cenedlaethol.

Bu'r ymgynghoriad yn annog cyfranogwyr i gwblhau holiadur adborth, a dadansoddwyd y canlyniadau'n annibynnol ac maent ar gael i'w gweld yma. Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus 2024 – Citizen Space Cyfoeth Naturiol Cymru – Citizen Space

**Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Gymraeg**

**Enw'r parc cenedlaethol:**

Gan weithio gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ar ôl cael cyngor gan banel safoni enwau lleoedd Cymru, ddau opsiwn a allai fod yn addas ar gyfer y parc cenedlaethol arfaethedig, ill dau ag enwau Cymraeg yn unig.

Yn ystod yr ymgynghoriad ymatebodd 749 (49%) o blaid Parc Cenedlaethol – Glyndŵr – National Park.

Ymatebodd 424 (28%) o blaid Parc Cenedlaethol – Bryniau Clwyd a'r Berwyn – National Park.

Awgrymodd 347 (23%) enwau eraill, ond ni ddaeth unrhyw enw penodol i'r amlwg fel dewis poblogaidd o blith y rhain.

Ni wnaeth 383 ymateb i'r cwestiwn o gwbl.

Bydd enw Cymraeg yn unig yn cefnogi'r awdurdod i gael hunaniaeth Gymraeg yn hytrach na hunaniaeth ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

**<u>Dadansoddi'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad – effeithiau dynodiad parc cenedlaethol ar y Gymraeg</u>**

Mae adroddiad o'r ymatebion a'r themâu o'r holiadur ymgynghori wedi'i ddadansoddi, ac isod ceir gwybodaeth o'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Gymraeg. Gofynnodd cwestiynau 8, 9 a 10 yn yr holiadur ymgynghori am adborth penodol ar yr effeithiau ar y Gymraeg:

**Yng nghwestiwn 8 yr ymgynghoriad gofynnwyd y canlynol: Beth yw eich gallu yn y Gymraeg?**

- Ymatebodd 1,834 i gwestiwn 8 uchod
- Roedd 356 (19%) yn siaradwyr Cymraeg rhugl
- Roedd 564 (30.10%) yn gallu deall a siarad rhywfaint o Gymraeg
- Roedd 344 (18.36%) yn dysgu Cymraeg
- Nid oedd gan 570 (30.42%) ddealltwriaeth o'r Gymraeg
- Ni wnaeth 77 (4.03%) ymateb i'r cwestiwn o gwbl

**Yng nghwestiwn 9 yr ymgynghoriad gofynnwyd y canlynol: Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?**

Cafwyd 1,126 o ymatebion unigol i gwestiwn 9, ac fe'u dadansoddwyd i themâu fel a ganlyn:

**Effeithiau cadarnhaol cyffredinol ar y Gymraeg:**

- Teimlai 144 (12.8%) o'r ymatebwyr i'r cwestiwn y byddai dynodiad parc cenedlaethol yn cael "effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant yn fwy i gynulleidfa ehangach." Hefyd, nodwyd gan yr ymatebwyr y byddai'r dynodiad yn annog mwy o staff sy'n gweithio gyda'r cyhoedd yn y parc cenedlaethol a'r diwydiant twristiaeth o fewn ffiniau'r ardal i ddefnyddio mwy o Gymraeg; e.e. *"Byddai mwy o effeithiau cadarnhaol drwy gyflwyno'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg i fwy o bobl".*

**Effeithiau negyddol cyffredinol ar y Gymraeg:**

- Teimlai 201 (17.9%) o'r ymatebwyr y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg pe bai'r ardal yn cael ei dynodi'n barc cenedlaethol. Nodwyd yn yr ymatebion a ddaeth i law na fyddai'r dynodiad yn helpu'r defnydd o'r iaith oherwydd ei bod mor agos at y ffin â Lloegr, a byddai mwy o ddefnydd o'r Saesneg o fewn y ffiniau, ac na fyddai'r rheini a fyddai'n ymweld yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw'r iaith i ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

**Tai / gwyliau – ail gartrefi, costau tai, a'r ffordd y caiff tai eu defnyddio:**

- Nodwyd gan 172 (15.3%) a ymatebodd i gwestiwn 9 y byddai'r dynodiad yn cael effaith negyddol ar yr iaith oherwydd newidiadau o ran argaeledd a chostau tai, a'r ffordd y cânt eu defnyddio.
- Mynegwyd pryder y gallai fod cynnydd yn nifer y tai sy'n cael eu prynu at ddibenion gwyliau neu i'w defnyddio fel ail gartrefi gan bobl o'r tu allan i'r ardal, gan leihau faint o dai sydd ar gael i bobl leol, a chynnydd ym mhrisiau tai, gan ei gwneud yn anodd i bobl leol brynu tai yn eu cymunedau cartref.
- Ymatebodd chwech gydag awgrymiadau ar gyfer sut i liniaru'r materion hyn, e.e.'*Os yw'r effeithiau hyn i gael eu lliniaru, rhaid ystyried cymorth tai lleol a gosod cyfyngiadau llym ar greu llety gwyliau, llety Airbnb, tai gwyliau a cheisiadau i newid tai presennol yn fusnesau.'*

**Seilwaith:**

- Teimlai 60 (5.3%) o'r ymatebwyr y byddai'r dynodiad yn cael effaith negyddol ar yr iaith oherwydd seilwaith yr ardal. Nid yw'r ymatebion hyn yn ateb yr hyn a ofynnwyd yng nghwestiwn 9, ac ni allai unrhyw gydberthynas rhwng safon y seilwaith yn yr ardal effeithio ar y Gymraeg yn yr ardal. Cafwyd un ymateb yn nodi sut y byddai'r ymatebydd yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r rheini sy'n ymweld â'r ardal i'w melltithio mewn rhai amgylchiadau.

**Twristiaeth:**

- Ymatebodd 118 (10.5%) ar yr effeithiau y byddai'r dynodiad yn eu cael ar yr ardal o ganlyniad i dwristiaeth. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law yn gadarnhaol ac yn negyddol mewn perthynas â'r iaith.
- Roedd yr ymatebion negyddol yn ymwneud â'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a bod hyn yn niweidiol i'r iaith. Cododd eraill bryderon y byddai'r ymwelwyr yn siarad Saesneg, felly byddai gwasanaethau'n cael eu darparu yn Saesneg, gan gynnwys arwyddion, yn lle canolbwyntio ar ddefnyddio arwyddion ac enwau lleoedd Cymraeg.

- Nodwyd yn yr ymatebion cadarnhaol a ddaeth i law y byddai hyn yn gyfle i gyflwyno'r iaith i fwy o ymwelwyr â'r ardal. Nodwyd gan rai ymatebwyr hefyd y byddai'n bwysig sicrhau y gallai'r rheini sy'n ymweld â'r ardal ddeall yr hyn sy'n cael ei nodi ar arwyddion ac egluro tarddiad enwau lleoedd a fyddai'n ddiddorol i'r rheini nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg.

**Yr economi / cymuned leol:**

- Cafwyd 118 (10.5%) o ymatebion yn nodi y byddai'r dynodiad yn cael effaith ar yr iaith, y gymuned a'r economi leol, neu'n achosi newidiadau ynddi, gan achosi effeithiau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd.
- O ran yr ymatebion cadarnhaol, teimlwyd y byddai mwy o falchder yn yr ardal am genedlaethau i ddod oherwydd y dynodiad, ac y gallai hyn ddarparu swyddi i bobl iau gan eu helpu i aros yng Nghymru.
- Roedd sylwadau negyddol yn datgan y gallai'r dynodiad olygu bod yn rhaid i siaradwyr Cymraeg brodorol ymadael â'r ardal.

**Yr effaith y byddai clywed mwy o Saesneg ar lafar yn ei chael:**

- Cafwyd 89 (7.9%) o ymatebion yn nodi y byddai'r dynodiad yn effeithio ar yr iaith oherwydd yr effaith y byddai clywed mwy o Saesneg llafar yn yr ardal yn ei chael.
- Nodwyd effeithiau cadarnhaol gan nifer yn ymateb na chredent y byddai effaith ar yr iaith na'i thwf o glywed mwy o Saesneg ar lafar yn y parc, ac y dylid croesawu ymwelwyr.
- Roedd yr ymatebion cadarnhaol a ddaeth i law yn nodi y byddai creu parc cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd newydd i ddiogelu'r iaith yn yr ardal.
- Roedd yr ymatebion negyddol a ddaeth i law yn nodi y byddai agosrwydd y ffiniau arfaethedig at ddinasoedd mawr yn Lloegr yn golygu mai Saesneg fyddai'r iaith amlycaf, gan arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg.

**Hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth a diwylliant Cymraeg:**

- Ymatebodd 279 (24.7%) ynglŷn â'r effaith y byddai'r dynodiad yn ei chael ar hyrwyddo'r Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant Cymru.
- Roedd mwyafrif yr ymatebion o'r farn y byddai'r dynodiad yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith oherwydd byddai modd hyrwyddo'r Gymraeg, a threftadaeth a diwylliant yr ardal, gan nodi ei fod yn gyfle i gyflwyno'r rheini sy'n ymweld â'r ardal i'r Gymraeg ac elfennau o'n diwylliant. Nodwyd hefyd y byddai datblygu atyniadau i ymwelwyr yn gwella hyn ymhellach, gyda chyfle i ymwelwyr ddysgu geiriau ac ymadroddion sylfaenol Cymraeg. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn effaith gadarnhaol ar y bobl hynny nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n ymweld â'r parc cenedlaethol newydd.

**Arwyddion / gwybodaeth ddwyieithog**

- Ymatebodd 151 (13.4%) ar yr effaith y byddai'r dynodiad yn ei chael ar ddefnyddio arwyddion a gwybodaeth ddwyieithog.

- Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol gan fynegi y byddai arwyddion a byrddau dehongli dwyieithog o fewn ffiniau'r parc yn gwneud yr iaith a'r diwylliant yn fwy amlwg, ac yn meithrin ymdeimlad o falchder yn y bobl leol wrth hyrwyddo a dathlu'r pethau hyn gydag eraill.
- Ystyriwyd bod sicrhau'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg yn cael effaith gadarnhaol wrth ymgysylltu â'r rheini sy'n ymweld, gan gynnig cyfle i ymgysylltu â nhw er mwyn egluro ystyr yr enwau.

**Addysg Gymraeg:**

- Ymatebodd 121 (10.8%) y byddai'r dynodiad yn effeithio ar y Gymraeg oherwydd addysg Gymraeg.
- Cafwyd lliaws o ymatebion yn nodi y dylid addysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru, tra bod eraill yn teimlo bod gormod o bwyslais ar "Gymreictod" ac y gall hyn fod yn wahaniaethol.
- Nodwyd hefyd, oherwydd agosrwydd y ffin â Lloegr, bod gwrthwynebiad i ddysgu Cymraeg ac y byddai'n debygol o barhau i fod yn ardal Saesneg ei hiaith, a'i bod yn annhebygol y bydd cynnydd mewn addysg Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.

**Yng nghwestiwn 10 yr ymgynghoriad gofynnwyd y canlynol: Eglurwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y cynnig hwn i gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
**Gofynnodd y cwestiwn hefyd i'r ymatebydd esbonio sut yr oedd yn teimlo y gellid llunio neu newid y cynnig i beidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Trosolwg:**

- Cafwyd 755 o ymatebion i gwestiwn 10, gyda'r mwyafrif yn ateb yr un peth neu'n debyg i gwestiwn 9.

Oherwydd y camau a gymerwyd yn y weithdrefn asesu fel yr amlinellwyd uchod, nid yw CNC yn rhagweld y bydd y gwaith o werthuso'r achos dros barc cenedlaethol newydd yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, na thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, os caiff y dynodiad ei gymeradwyo ac y sefydlir awdurdod parc cenedlaethol newydd, y gred yw y bydd hefyd yn sefydliad cyhoeddus. Byddai'r awdurdod, drwy weithredu ei bolisïau a'i strategaethau deddfwriaethol y byddai'n ofynnol iddo eu rhoi ar waith, yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gadarnhaol, a bydd hyn yn helpu i leddfu'r pryderon a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a nodwyd uchod.

**<u>Enghreifftiau o bolisïau, strategaethau a chynlluniau y byddai'n ofynnol i awdurdod parc cenedlaethol newydd eu rhoi ar waith mewn perthynas â'r Gymraeg</u>:**

**Mae'r mesurau a amlinellir isod yn berthnasol ar hyn o bryd i'r holl awdurdodau lleol o fewn ffiniau'r ardal ymgeisiol. Un o fanteision y parc cenedlaethol yw y byddai'n darparu fframwaith ac yn dod â dull cyson i dargedu ardaloedd penodol at gynllunio ieithyddol o fewn ffiniau'r parc.**

1. O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, byddai'n ofynnol i'r awdurdod weithredu polisi safonau'r Gymraeg ynghylch pa wasanaethau y byddai'n eu darparu yn y Gymraeg i gwsmeriaid, partneriaid, rhanddeiliaid a'i staff ei hunan, a sut y byddai'n mynd ati i wneud hynny. Byddai hyn yn cynnwys polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol o fewn y sefydliad at ddiben hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith.

2. Byddai polisi'r awdurdod ar gyfer safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol, wrth ddatblygu polisïau a strategaethau, bod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o'r gwaith, fel yr amlinellir yn adrannau 26 a 29 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ymwneud â safonau llunio polisi (safonau 84 i 89):
    - Yr angen i sefydliadau cyhoeddus ystyried pa effeithiau (cadarnhaol neu negyddol) y gall eu penderfyniadau, wrth arfer eu swyddogaethau a chynnal eu busnes neu eu gwaith bob dydd, eu cael ar ddefnyddio'r iaith, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.  Ni fyddai hyn yn gyfyngedig i ddogfennau ysgrifenedig yn unig.

Pan fo effeithiau wedi'u nodi ar y Gymraeg, neu pan fo'n debygol y bydd effeithiau arni, byddai angen cwblhau asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar y defnydd o'r iaith a sicrhau na fyddai'n cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3. Byddai safon 145 o bolisi'r awdurdod ar gyfer safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gael strategaeth bum mlynedd yn nodi sut y byddai'r awdurdod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'u gwaith o fewn ffiniau'r parc. Byddai angen i'r strategaeth gynnwys amcanion ynghylch sut y gellid hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei gwaith a meysydd dylanwad.

    Mae gan bob awdurdod lleol o fewn ffiniau'r parc strategaeth bum mlynedd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, gyda'u gweledigaethau, eu hamcanion a'u blaenoriaethau eu hunain ar gyfer yr iaith ym mhob ardal unigol:

    **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** – Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022–2027

    Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar gyfer y Gymraeg fel a ganlyn:

    - *Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol hyd at 12.9%*.*

- *Hwyluso, cynyddu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol a rhoi cyfle i breswylwyr fyw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.*
- *Creu gwell dealltwriaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ymysg preswylwyr di-Gymraeg.*

** 2022–2027 – Yn sgil yr ansicrwydd o ran y Cyfrifiad, efallai y bydd angen ailystyried y targed os bydd angen defnyddio ffynonellau data gwahanol i olrhain unrhyw gynnydd dros oes y strategaeth ac wedi hynny.*

**Cyngor Sir y Fflint** – Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg – 2019–2024

Mae nod Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y Gymraeg yn ei strategaeth fel a ganlyn:

*Cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Byddwn yn cefnogi cynnydd yn y lefel bresennol o siaradwyr Cymraeg (13.2% / 19,343) o fewn y sir i 21,891 (15%) o bobl yn ystod y cyfnod hwn, drwy gyflawni'r amcanion a ganlyn:*

- *cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y sir*
- *cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir*
- *creu amodau ffafriol i'r iaith ffynnu*

**Cyngor Sir Ddinbych** – Strategaeth Iaith Gymraeg 2023–2028

Mae gweledigaeth Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer yr iaith fel a ganlyn:

- *Mae Cynllun Corfforaethol 2022–2027 yn gwneud ymrwymiad cadarn i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith ffyniannus sy'n esblygu.*
- *Sir ddwyieithog gan fwyaf yw Sir Ddinbych, gyda threftadaeth a diwylliant cyfoethog. Rydym yn falch o hyn ac am i'r balchder hwnnw gael ei adlewyrchu yn ein gwaith dyddiol gyda chymunedau, gyda thrigolion a gyda'n staff.*
- *Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion safonau'r Gymraeg yn sail i'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; rydym am i bobl allu cael mynediad at wasanaethau drwy eu dewis iaith naturiol, ar bob cam o'u bywydau.*
- *Rydym am ychwanegu at ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi a chymdeithasol i'n staff i weithio yn y Gymraeg ac i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.*
- *Rydym am weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn iaith ffyniannus yn Sir Ddinbych.*
- *Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.*

**Cyngor Sir Powys** – Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2025–2030

Gweledigaeth Cyngor Sir Powys ar gyfer yr iaith yn eu strategaeth newydd ei chyhoeddi – *Byddwn yn cefnogi mwy o bobl i siarad Cymraeg yn hyderus ledled Powys a defnyddio'r iaith yn eu cymunedau.*

*Mae'r amcanion yn y strategaeth fel a ganlyn:*

- *Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc ym Mhowys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus.*
- *Cynyddu defnydd y Gymraeg yn ein gwaith mewnol.*
- *Annog busnesau, y sector gwirfoddol a sefydliadau cymunedol ym Mhowys i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chwsmeriaid.*

**Cyngor Gwynedd – Strategaeth Iaith Gwynedd 2023–2033**

Mae gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg fel a ganlyn:

- *Rydym yn bwriadu creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.*
- *Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith.*
- *Rydym am roi sylw penodol i geisio cynyddu defnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys dangos iddynt werth yr iaith fel sgìl i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.*
- *Byddwn hefyd yn ceisio rhoi sylw penodol i sut y gallwn ni gael dylanwad cadarnhaol ar y ffordd y mae'r trigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn yr amrywiol ddulliau y mae technoleg yn rhan o'u bywydau.*

4. Byddai Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod y parc cenedlaethol baratoi cynllun rheoli ar gyfer y parc cenedlaethol. Rhaid i bob awdurdod parc cenedlaethol baratoi cynllun rheoli pum mlynedd 'sy'n llunio ei bolisi ar gyfer rheoli'r parc perthnasol ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r parc hwnnw' (adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995). Deddf yr Amgylchedd 1995

   Byddai'r cynllun yn cynnwys sut y byddai'r awdurdod yn gofalu am gefn gwlad, cadwraeth a bywyd gwyllt, diwylliant a threftadaeth ac unrhyw rinweddau arbennig eraill o fewn ffiniau'r parc.  Byddai ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun yn ogystal â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai angen drafftio asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynllun i asesu'r effaith bosibl y byddai'r cynllun yn ei chael ar y defnydd o'r iaith o fewn

ffiniau'r parc, a pha gamau y gallai'r cynllun eu cynnwys i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol.

5. Mae [Nodyn cyngor technegol (TAN) 20: cynllunio a'r Gymraeg | LLYW.CYMRU] yn darparu canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ar sut i roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg trwy'r system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaethau perthnasol eraill.

   Byddai gan yr awdurdod rwymedigaeth statudol i ddatblygu cynllun datblygu ardal leol (CDLl) yn nodi fframwaith cynllunio ynghylch defnyddio tir ar gyfer y parc cenedlaethol ac yn darparu sylfaen i benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn ffiniau'r parc. Byddai angen i'r cynllun, wrth ei ddatblygu, ystyried strategaethau, materion ac amcanion lleol, ac ystyried sut y byddai'r cynllun yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, a pha mor gynaliadwy yw cymunedau. Byddai angen drafftio asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynllun i asesu'r effaith bosibl y byddai'r cynllun yn ei chael ar y defnydd o'r iaith o fewn ffiniau'r parc, a pha gamau y gallai'r cynllun eu cynnwys i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol.

   Byddai angen ystyried a chynnwys unrhyw nodweddion arbennig o bwysig o fewn ffiniau'r parc, o'r dreftadaeth ddiwylliannol a'r bywyd gwyllt, yn y CDLl.

   Byddai'r cynllun yn creu cysondeb o ran unrhyw ddatblygiadau o fewn ffiniau'r parc, sydd ar hyn o bryd yn perthyn i'r pum awdurdod lleol o fewn ffiniau arfaethedig y parc. Mae gan bob un ohonynt eu cynlluniau datblygu lleol eu hunain, a blaenoriaethau ac amcanion gwahanol mewn perthynas â diogelu'r iaith, treftadaeth a diwylliant, a gwarchod cymunedau Cymraeg rhag cael eu gwanhau ymhellach, sy'n nodweddion cymdeithasol a diwylliannol rhai o'r cymunedau o fewn y ffiniau.

   **<u>Cynlluniau datblygu lleol awdurdodau lleol Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Powys a Gwynedd</u>**

   Mae gan bob un o'r pum awdurdod lleol sydd o fewn ffiniau arfaethedig y parc cenedlaethol eu cynlluniau datblygu lleol eu hunain ar hyn o bryd sy'n canolbwyntio ar eu blaenoriaethau eu hunain ac ystyriaethau o ran y Gymraeg. Byddai cael un CDLl yn unig ar gyfer y parc cenedlaethol yn dod â chysondeb i'r prosesau a'r gweithdrefnau cynllunio o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol.

   I'w nodi – Mae rhai o gynlluniau datblygu lleol yr awdurdodau lleol wrthi'n cael eu hadolygu a'u disodli.

   **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** – [Cynllun Datblygu Lleol Wrecsam 2 (CDLl2) 2013–2028 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam]

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint** – Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015–2030

Mae ei gynllun yn cydnabod yr angen am ddatblygiadau newydd i gefnogi a chynnal yr iaith a'r hunaniaeth ddiwylliannol.

Mae'r cynllun hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw twristiaeth wrth gefnogi ac amrywio cymunedau gwledig ac economi wledig fel a ganlyn:

*Mae gan dwristiaeth rôl allweddol i'w chwarae yn economi Sir y Fflint, ac mae'n arbennig o bwysig o ran cefnogi ac arallgyfeirio cymunedau gwledig a'r economi wledig. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod twristiaeth yn 'allweddol i ffyniant economaidd a chreu swyddi' a 'gall fod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd' (paragraff 5.5.1 PCC11). Mae twristiaeth yn Sir y Fflint yn cynnwys amrywiaeth o atyniadau, megis trefi marchnad hanesyddol megis Yr Wyddgrug a Threffynnon / Dyffryn Maes Glas, gwyliau carafanau arfordirol yn Nhalacre, cerdded a seiclo ar hyd y llwybr arfordirol neu weithgareddau mwy actif yn yr AHNE drwyddi draw. O ran hunaniaeth ddiwylliannol ac atyniadau diwylliannol, mae gan Sir y Fflint gymuned Gymraeg gymharol fechan ond gref a neilltuol. Mae'r hunaniaeth ddiwylliannol yma yn amlygu ei hun drwy'r galw am addysg Gymraeg, amrywiaeth o grwpiau cymunedol Cymraeg a dwyieithog a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn o Ŵyl Gwanwyn Cadi Ha ym mis Mai i Daith y Fari Lwyd ym mis Rhagfyr, a llawer mwy rhwng y ddwy.*

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ddinbych** – Cyngor Sir Ddinbych – Cynllun Datblygu Lleol – data.gov.uk

Mae'r CDLl a gyhoeddwyd ar gyfer 2006–2021, ac nid yw'r cynllun wedi'i ddiweddaru wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r cynllun presennol sydd wedi'i gyhoeddi yn nodi fel a ganlyn:

*Darparu maint datblygiad sy'n realistig. Datblygu hunaniaeth unigryw, ymdeimlad o le unigryw, edrych tuag allan, cymunedau diogel, gwella iaith a diwylliant Cymru, gwell mynediad at berfeddwlad wledig.*

*Bydd gan Sir Ddinbych, trwy gyfrwng datblygiad cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig sy'n ffynnu. Bydd anghenion tai a chyflogaeth y sir yn cael eu diwallu, a'r amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei amddiffyn a'i wella, ac ansawdd bywyd uchel yn cael ei gynnal ar gyfer pob cymuned, gan gydnabod yn llawn bod gennym iaith Gymraeg gref a diwylliant y dylid eu cynnal a'u gwarchod ledled y sir.*

***Materion allweddol sy'n wynebu'r sir (heb fod mewn unrhyw drefn benodol)***

*Gellir bygwth yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig gan rai mathau a meintiau o ddatblygiad.*

*Y Gymraeg7. Bydd y cynllun datblygu lleol yn sicrhau bod effaith datblygiad newydd ar y Gymraeg a'r diwylliant yn cael ei hasesu ym mhob rhan o'r sir.*

*Thema:Mae parchu nodweddion unigryw yn ymwneud â hunaniaeth ardal, yr hyn sy'n ei gwneud yn unigryw ac yn creu syniad o le. Mae hyn yn cynnwys agweddau megis cymeriad y cymunedau yn Sir Ddinbych, ansawdd ac amrywiaeth yr amgylchedd adeiledig a naturiol, defnyddio'r Gymraeg a diwylliant yr ardal.*

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Powys** – Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Powys 2011–2026

*Ystyriaethau o ran y Gymraeg 10.1 Dylid cyhoeddi pob dogfennaeth gyhoeddus yn ddwyieithog yn unol â safonau'r Gymraeg y mae'r Cyngor yn eu dilyn. Lle mae cynnwys canllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ei hun, efallai y bydd angen i ddogfennau drafft cynharach (camau 1 i 3) gael eu cyfieithu o gychwyn cyntaf y broses baratoi i sicrhau bod yr holl randdeiliad, gan gynnwys rhanddeiliaid Cymraeg, yn cael y ddogfennaeth briodol. Bydd y broses asesu effeithiau (adran 9.1) yn adnabod anghenion o ran y Gymraeg mewn perthynas â phob canllaw cynllunio atodol.*

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd** – Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd – Gwybodaeth – Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun datblygu lleol newydd yn dilyn penderfyniad yn 2023 i roi'r gorau i'r cytundeb cydweithio ar y polisi cynllunio gyda Chyngor Ynys Môn, gyda gwasanaeth polisi cynllunio newydd Gwynedd wedi ei greu.

Cyflwynodd Cyngor Gwynedd gyfarwyddyd erthygl 4, yn weithredol o fis Medi 2024 i reoli tai a ddefnyddir fel ail gartrefi a llety gwyliau. Mae hyn yn golygu bod angen cael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd eiddo preswyl i fod yn ail gartref, llety gwyliau tymor byr neu ddefnydd cymysg penodol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach yn yr asesiad hwn sy'n egluro diben cyfarwyddyd erthygl 4.

**Creu awdurdod parc cenedlaethol newydd**

**Parc Cenedlaethol Eryri** – Yn ôl ei adroddiad monitro blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2023–2024, ar 31 Mawrth 2024 roedd yr awdurdod yn cyflogi 149 aelod o staff, ac o'r rheini roedd 142 (95.3%) yn gallu gweithio'n ddwyieithog. Adroddiad Monitro Blynyddol 2023–2024

Mae awdurdod y parc cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda sefydliadau, busnesau, perchnogion tir a chymunedau Eryri er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r parc cenedlaethol.

**Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro** – Yn ôl ei adroddiad monitro blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2023–2024, ar 31 Mawrth 2024, roedd yr awdurdod yn cyflogi 191 aelod o staff, ac o'r rheini roedd 24 (12.5%) yn siaradwyr Cymraeg rhugl, a 13 arall (6.8%) yn gallu trafod materion yn hyderus yn y Gymraeg. Adroddiad-Safonaur-Gymraeg.pdf

**Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** – Yn ôl ei adroddiad blynyddol i fonitro cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg yn 2023–2024, roedd 10 aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac o'r rheini roedd chwech yn gallu trafod materion yn hyderus yn y Gymraeg. Mae gwefan yr awdurdod yn nodi bod dros 100 aelod o staff yn cael eu cyflogi ganddynt. Nid yw'r adroddiad cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg yn nodi union nifer y staff y mae'r awdurdod yn eu cyflogi. Adroddiad cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg

**Potensial ar gyfer awdurdod parc cenedlaethol newydd – ar y defnydd o'r Gymraeg**
Mae'n debygol y bydd gan awdurdod parc cenedlaethol newydd hunaniaeth gorfforaethol Gymraeg yn unig, gan ddilyn esiampl dau o'r parciau cenedlaethol presennol, sef parciau cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog. Bydd ei ddiben, ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau hefyd yr un fath â rhai'r awdurdodau parciau cenedlaethol presennol, ac mae'n debygol y byddai'r awdurdod yn cyflogi nifer debyg o aelodau staff. Bydd angen asesu pob swydd newydd neu wag o fewn yr awdurdod ar eu sgiliau Cymraeg, a'u categoreiddio fel y rheini sy'n gofyn am y sgiliau hynny ar gyfer y swydd fel hanfodol, dymunol, heb fod yn ofynnol neu angen eu datblygu wrth ymgymryd â'u rolau yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg. Bydd hyn yn rhoi cyfleoedd i'r rheini sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg sicrhau rolau o fewn yr awdurdod a chyfleoedd i eraill ddatblygu'r sgiliau hyn tra byddant yn ymgymryd â'u rolau.

Mae gan yr awdurdod, fel sefydliad a chyflogwr newydd, y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg, a chyfleoedd i'w hyrwyddo, o fewn ei ffiniau oherwydd ei ddiben, ei rolau a'i gyfrifoldebau fel sefydliad, y polisïau a'r cynlluniau y bydd gofyn iddo eu rhoi ar waith, sy'n cynnwys ystyriaethau o ran yr iaith trwy ei ddiben, ei bolisïau a'i strategaethau i gefnogi uchelgais Cymraeg 2050 o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau.

Byddai disgwyl i'r awdurdod gael polisi iaith mewnol yn egluro sut y byddai'n darparu cyfleoedd i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Mae hyn yn rhan o ofynion safonau'r Gymraeg, ac y mae hefyd yn cefnogi nodau ac amcanion Cymraeg 2050. Fel sefydliad cyhoeddus newydd, mae gan yr awdurdod y potensial i ddatblygu ei hun fel gweithle dwyieithog yn ei ffyrdd o weithio o'r cychwyn cyntaf.

Mae pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol presennol yn cyflogi staff sy'n meddu ar amrywiaeth eang o sgiliau i gyflawni'r amrywiol rolau sy'n ofynnol i gyflawni eu diben. Er enghraifft, rolau sy'n cynnwys gwaith cadwraeth, rheoli cefn gwlad, wardeiniaid, cynorthwywyr gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr a thwristiaid, cynllunwyr, swyddogion datblygu cymunedol, swyddogion addysg, gweinyddwyr a staff rheoli. Gwneir rhai rolau yn y swyddfa tra gwneir eraill yn y maes yn bennaf. Mae'n debygol y bydd cyfleoedd ar gyfer rolau gwirfoddoli hefyd. Mae'n debygol y bydd awdurdod parc cenedlaethol newydd fel cyflogwr yn apelio at

amrywiaeth eang o bobl, gyda nifer o’r rolau hyn yn rolau sy’n wynebu’r cyhoedd a fydd angen sgiliau Cymraeg i’w cyflawni. Mae awdurdod parc cenedlaethol newydd yn debygol o ddarparu cyflogaeth dda, yn ogystal â chyfleoedd datblygu gyrfa, a gall hefyd helpu i leihau nifer y bobl ifanc a’r rheini sy’n meddu ar sgiliau Gymraeg sy’n allfudo o’u cymunedau cartref.

Mae’r tri awdurdod presennol yn ymgysylltu, yn ymgynghori ac yn gweithio gyda sefydliadau, busnesau, perchnogion tir a chymunedau o fewn eu ffiniau, fel y bydd unrhyw awdurdod newydd.

Mae’r adroddiad a gyhoeddwyd gan y **Comisiwn Cymunedau Cymraeg** yn Awst 2024, sef 45614 Adroddiad interim gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, yn datgan bod yr economi yn bwysig pan fo’r Gymraeg yn iaith gymunedol. Byddai’r awdurdod fel cyflogwr newydd yn darparu cyflogaeth mewn amrywiaeth o rolau a allai helpu i leihau’r allfudo gan bobl ifanc o gymunedau gwledig o fewn y ffiniau arfaethedig, sydd hefyd yn gymunedau Cymraeg, a hefyd yn denu’r rheini sydd wedi ymadael i ddychwelyd i weithio a byw yn eu cymunedau cartref unwaith eto. Mae parc cenedlaethol newydd hefyd yn debygol o ddenu busnesau i’r ardal, yn ogystal â chynnig potensial ar gyfer busnesau newydd sy’n cynnal yr economi wledig ac yn darparu cyflogaeth.

**Cenedlaethau’r Dyfodol** – Ysgrifennwyd Crynodeb Gweithredol Adroddiad Cenedlaethau’r Dyfodol 2025 i gefnogi cyflawni uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’r adroddiad wedi’i ysgrifennu i helpu a chefnogi gwleidyddion ac arweinwyr cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau gwell wrth wneud y mwyaf o’u cyfraniad tuag at y saith nod llesiant i wella bywydau pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol. Mae tudalen 21 yr adroddiad yn cynnwys argymhellion mewn perthynas â diwylliant a chenhadaeth y Gymraeg, sy’n argymell bod pob corff cyhoeddus yn datblygu cynlluniau i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn fewnol yn eu gweithleoedd. Byddai hyn yn caniatáu i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith ym mhob agwedd ar eu bywydau, a fyddai yn ei dro yn meithrin diwylliant dwyieithog o fewn gweithleoedd sefydliadau cyhoeddus. Byddai hyn hefyd yn helpu o ran cadw staff a sgiliau Cymraeg.

# Ymchwil neu ddata perthnasol eraill

**Diwygiad polisi Llywodraeth Cymru i ddeddfwriaeth gynllunio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno diwygiadau i ddeddfwriaeth gynllunio i reoli’r effaith y mae ail gartrefi a llety gwyliau yn ei chael ar gymunedau yng Nghymru. Mae’r newidiadau hyn yn golygu y gall awdurdodau cynllunio gyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 i reoli’r defnydd o ail gartrefi a llety gwyliau.

Mae cyfarwyddyd erthygl 4 yn galluogi awdurdodau cynllunio i ymateb i anghenion eu hardaloedd o ran datblygiadau penodol i ddileu hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys newidiadau defnydd i eiddo mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig fel y bo angen i ddiogelu amwynder lleol neu lesiant ardal.

**Cyfarwyddyd erthygl 4 yn Eryri – cynllunio a datblygu**

Adroddiad Cyfiawnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Cynhaliodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ymchwil ar yr effaith y mae tai gwyliau (llety tymor byr ac ail gartrefi) a llety gwyliau wedi'i chael ar y stoc dai sydd ar gael ar gyfer cymunedau lleol o fewn ffiniau'r parc. Diben yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 yn dilyn ymchwil oedd dod i benderfyniad yn seiliedig ar gasglu tystiolaeth ar gyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Mae'r adroddiad yn ystyried yr anawsterau y mae cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn eu hwynebu oherwydd y niferoedd uchel o dai gwyliau ac ail gartrefi sy'n fygythiad gwirioneddol i lewyrch cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymunedau ar draws Eryri. Nod yr adroddiad yw dod o hyd i'r ateb o ran cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 fel mecanwaith i reoli'r defnydd o dai o fewn ffiniau'r parc er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol a dewis addas o dai sydd yn diwallu anghenion cymunedau lleol.

Nod yr adroddiad yw dod i benderfyniad ar gyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg [HTML] | LLYW.CYMRU – Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar fforddiadwyedd tai ac ail gartrefi o safbwynt y Gymraeg, ac yn ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal cymunedau Cymraeg sy'n fywiog yn ieithyddol yn ddaearyddol, ac mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r cytundeb cydweithio â Phlaid Cymru yn amlinellu amrywiaeth o gamau gweithredu i helpu i reoli nifer yr ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cydnabod, er bod hyn yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru, ei fod yn amrywio yn ôl amgylchiadau ac ardaloedd lleol, sydd yn ei dro yn cael effaith negyddol ar argaeledd a fforddiadwyedd tai i bobl leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol.

Mae'r cynllun yn nodi bod angen cynnal economi gref yn ogystal â bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu.

Ym mis Mawrth 2024 gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad ynghylch sut mae'n bwriadu defnyddio polisi i fynd i'r afael â'r mater:

Mae mesurau 'digyffelyb' ac 'arloesol' yn mynd i'r afael ag ail gartrefi a fforddiadwyedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

*Rydym wedi ymestyn pwerau i awdurdodau lleol godi cyfradd premiwm yn ôl disgresiwn o ran y dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag o 1 Ebrill 2023. Bydd yr uchafswm y gallant ddewis ei gymhwyso yn codi o 100% i 300%. Rydym hefyd wedi newid y rheolau ynghylch llety gwyliau tymor byr, sy'n golygu, er mwyn bod yn atebol am ardrethi annomestig (yn hytrach na'r dreth*

*gyngor), rhaid i weithredwyr llety gwyliau tymor byr fod ar gael i'w osod am o leiaf 252 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, a chael ei osod mewn gwirionedd am o leiaf 182 diwrnod. Bydd hyn yn sicrhau bod perchnogion a'u gwesteion yn gwneud cyfraniad teg i'r cymunedau sy'n lletya.*

Sefydlwyd ardal beilot gan Lywodraeth Cymru i roi nifer o ymyriadau ar brawf, ac i asesu eu heffeithiolrwydd wrth reoli ail gartrefi a'u heffaith ar fforddiadwyedd. Gan weithio gyda Chyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin a Pharc Cenedlaethol Eryri, mae'r cynllun peilot yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Nwyfor.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu gwerthusiad o gam 1 y prosiect hwn a oedd yn fwy o gam cwmpasu i gynnal gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth a data. Bydd cam 2 (Hydref 2024 – Medi 2025) yn cynnwys ymgynghori pellach, ymchwil a chasglu mewnwelediadau ansoddol i lywio cam 3 y prosiect.  Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn yn y ddolen isod:

**Gwerthusiad o'r cynllun peilot ynghylch ail gartrefi a fforddiadwyedd: adroddiad cam 1 (2023 i 2024) (crynodeb) [HTML] | LLYW.CYMRU**

**Ymchwil bellach ar yr ymyriadau polisi tai a chynllunio**

**Cynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor | LLYW.CYMRU** – Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn yr adroddiad hwn fod gan lawer o gymunedau yng Nghymru ail gartrefi, llety gwyliau tymor byr a chartrefi gwag, sy'n gallu arwain at lai o dai, a llai o dai fforddiadwy. Gall hefyd effeithio ar yr iaith Gymraeg a bywiogrwydd rhai cymunedau.

**Ail gartrefi**

Canfu tystiolaeth ac argymhellion yn Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru, yn seiliedig ar ganlyniadau 2020, fod cyfanswm o 24,423 o ail gartrefi yng Nghymru. Canfuwyd bod ail gartrefi mewn sawl rhan o gefn gwlad Cymru sydd hefyd yn bennaf yn gymunedau traddodiadol Cymraeg.

Tystiolaeth a gasglwyd o'r adroddiad:

Roedd y niferoedd uchaf o ail gartrefi yn ardaloedd awdurdodau lleol Gwynedd (4,900) a Sir Benfro (4,072), sydd ill dau o fewn parciau cenedlaethol Eryri a Phenfro. Tra bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhychwantu rhannau o sawl awdurdod lleol sef (Powys, Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful ac ardaloedd o Flaenau Gwent a Thorfaen). Mae nifer yr ail gartrefi yn yr awdurdodau lleol hynny fel a ganlyn, Powys (1,313), Sir Fynwy (200), Sir Gaerfyrddin (1,125), Rhondda Cynon Taf (226), Merthyr Tudful (214), Blaenau Gwent (0) a Thorfaen (7).

Mae map o ffiniau'r parc cenedlaethol i'w weld yn nes ymlaen yn y ddogfen hon. Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer yr ail gartrefi o fewn yr awdurdodau lleol y bydd ffiniau arfaethedig y parc cenedlaethol yn rhan ohonynt fel a ganlyn:

Gwynedd = 4,900
Powys = 1,313
Sir Ddinbych = 422
Sir y Fflint = 268
Wrecsam = 0

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys eiddo sydd wedi'u cofrestru fel busnesau, e.e. tai a osodir ac eiddo Airbnb ac ati. Mae'r adroddiad yn nodi eu bod hefyd yn ffurfio rhan sylweddol o'r stoc dai mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ail gartrefi.
Mae'r adroddiad yn nodi bod llety gwyliau yn cynnal ac yn cyfrannu at yr economi leol oherwydd gallant fod yn gartrefi i aelodau'r gymuned leol, neu gall y rheini sy'n aros yn y llety wario arian yn y gymuned, pan nad yw'r un peth yn berthnasol i ail gartrefi yn yr un modd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys ymchwil a gynhaliwyd mewn perthynas ag *"Effaith ail gartrefi ar gynaliadwyedd cymunedau a'r iaith Gymraeg".* Canolbwyntiodd yr adroddiad ar bedwar rhagdybiaeth ynghylch y datganiad hwn fel a ganlyn:

- Ail gartrefi sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn prisiau tai mewn cymunedau penodol
- Pe bai llai o ail gartrefi, byddai pobl leol yn symud i'r cymunedau hyn i fyw
- Mae gostwng prisiau tai yn ddymunol
- Mae ail gartrefi yn niweidio'r iaith Gymraeg

Mae casgliad ac argymhelliad yr adroddiad yn nodi bod angen ymyrraeth polisi i helpu i leihau nifer yr ail gartrefi yn raddol dros y blynyddoedd yn y cymunedau yr effeithir arnynt.

Datganiad ysgrifenedig: diweddariad ar gamau gweithredu i fynd i'r afael ag ail gartrefi a fforddiadwyedd (16 Hydref 2024) | LLYW.CYMRU

Ail gartrefi: beth mae'r data yn ei ddweud wrthym? [HTML] | LLYW.CYMRU – Cyhoeddwyd yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru yn 2023, ac mae'n rhoi trosolwg o'r ffynonellau data sydd ar gael mewn perthynas ag ail gartrefi yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiad yn nodi nad oes diffiniad clir o'r hyn a ddosberthir fel 'tai gwyliau' oherwydd cânt eu defnyddio am wahanol resymau, a all gynnwys tai gwyliau preifat, ail gyfeiriad at ddibenion gwaith, neu eiddo a ddefnyddir fel llety gwyliau tymor byr.

Creodd newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio ym mis Hydref 2022 ‘orchymyn dosbarthiad defnydd’ newydd ar gyfer eiddo a oedd yn ei gwneud yn haws gwahaniaethu rhwng sut mae eiddo’n cael eu ddefnyddio.

Mae data yn y cyhoeddiad mewn perthynas ag anheddau’r dreth gyngor flynyddol yn dangos bod cynnydd wedi bod mewn ail gartrefi trethadwy yng Nghymru rhwng 2018–2019 a 2021–2022, gan ddangos cynnydd o 6% (o 23,426 i 24,873). Mae’r data a gyhoeddwyd yn dangos bod hyn wedi gostwng 4% yn 2022–2023 (23,974), gyda data yn dangos cynnydd yn 2023–2024 (24,170).

Yn y tabl isod ceir data o’r cyhoeddiad ar ail gartrefi trethadwy gan awdurdodau lleol o fewn y parc cenedlaethol arfaethedig, a hefyd mae’r awdurdodau lleol wedi’u lleoli fel a ganlyn:

| **Awdurdod lleol** | **2021–2022** | **2022–2023** | **2023–2024** |
|---|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (mae Parc Cenedlaethol Eryri o fewn yr ardal hon) | 5,098 | 4,720 | 4,758 |
| Cyngor Sir Powys | 1,333 | 1,342 | 1,376 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 393 | 397 | 422 |
| Cyngor Sir y Fflint | 280 | 273 | 269 |
| **Y cyfanswm yng Nghymru** | **24,873** | **23,974** | **24,170** |

**Mynegai prisiau tai’r DU yng Nghymru – Rhagfyr 2024**

Mae Mynegai prisiau tai’r DU yng Nghymru: Rhagfyr 2024 – GOV.UK, sef y cyhoeddiad diweddaraf ar adeg drafftio’r asesiad hwn, yn dangos bod prisiau tai yng Nghymru wedi gostwng 0.5% rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024.

Gwelodd 17 o'r 22 awdurdod lleol gynnydd cyfartalog ym mhrisiau tai dros y 12 mis diwethaf, dangosodd Gwynedd y newid blynyddol isaf o ran canran, gan ostwng 5.2% i £193,000 yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2024, ac yna Ynys Môn 5.1%, Ceredigion 2.4%, Conwy 0.6%, a Phowys 0.3%.

Twristiaeth a'r iaith yng Ngwynedd – Arsyllfa Cymru – Cefnogi economi wledig Cymru – Bu ymchwil a gynhaliwyd yng Ngwynedd yn y 1990au yn edrych ar y berthynas rhwng sectorau penodol o'r economi, gan gynnwys archwilio effaith twristiaeth ar y Gymraeg. Mae data mwy diweddar yn dangos perthynas gryfach rhwng y sector twristiaeth a'r iaith dros yr ugain mlynedd diwethaf gan fod y diwydiant yn darparu cyflogaeth gan alluogi pobl leol i barhau i fyw a gweithio yn yr ardal. Mae twristiaeth yn bwysig felly wrth gynnal yr economi leol. Mae'r erthygl hefyd yn cydnabod y rôl y mae twristiaeth yn ei chwarae wrth ddenu pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i fyw yn yr ardal, gan brynu tai na all pobl leol eu fforddio, sydd felly'n fygythiad posibl i'r iaith.

**Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** – Y-Bannau-Y-Dyfodol.pdf

Mae'r cynllun yn nodi problemau o ran y cynnydd yn nifer y tai gwyliau ac ail gartrefi, oherwydd bod gan ymwelwyr sy'n dychwelyd yn dilyn y cyfnod clo fwy o ddiddordeb mewn ymweld â chefn gwlad, a'r dirwedd yn denu llawer mwy o dwristiaid. Mae'r cynllun yn cydnabod y diffyg cyfleoedd cyflogaeth i gadw'r boblogaeth iau yn eu cymunedau, gyda phoblogaeth o bobl wedi ymddeol sy'n heneiddio sydd am dreulio amser yng nghefn gwlad. Mae hyn yn arwain at brisiau tai uwch, tai llai fforddiadwy a cholli ysgolion lleol mewn cymunedau oherwydd y cwymp yn nifer y plant.

**Ymchwil a gynhaliwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri ar agweddau a phrofiadau trigolion ac ymwelwyr**

Comisiynwyd yr wybodaeth a geir yn **Adroddiad Arolwg Ymwelwyr a Thrigolion Eryri 2021, Beaufort Research.pdf** gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gynnal arolwg o farn ymwelwyr a thrigolion lleol ar agweddau a phrofiadau'r rheini sy'n ymweld â'r parc ac yn byw ynddo er mwyn deall eu hanghenion yn well. Mae rhai meysydd yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar y Gymraeg a'i chymunedau yn y parc.

Mae tudalen 25 o'r adroddiad yn nodi'r dadansoddiad o'r ymatebion pan ofynnwyd i drigolion am restr o nodweddion Parc Cenedlaethol Eryri a gofynnwyd iddynt pa rai oedd rhinweddau arbennig swyddogol y parc:

- Dewisodd 74% "Bywiogrwydd y Gymraeg a hunaniaethau cymunedol cryf"
- Dewisodd 74% "Hunaniaethau cymunedol cryf"

Mae tudalen 29 yr adroddiad yn nodi'r dadansoddiad o'r ymatebion pan ofynnwyd i drigolion pa mor fodlon oeddent ar y gwahanol agweddau ar waith Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:

- Dywedodd 78% eu bod yn fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar sut oedd y parc yn defnyddio ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, er bod 11% wedi dewis nad oeddent yn fodlon iawn neu ddim yn fodlon o gwbl ar hyn.

Mae tudalen 31 yr adroddiad yn nodi mai'r prif welliant a awgrymwyd gan drigolion lleol oedd y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri weithio a chyfathrebu mwy â phobl leol.

- Awgrymodd 17% fod angen i'r parc wella ei waith gyda phobl leol a'r ffordd y mae'n cyfathrebu â nhw, tra bod 1% yn awgrymu bod angen gwella ei waith o ran diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.

Byddai'r awdurdod ei hun, pe bai'n cael ei sefydlu, hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth da gyda'r holl swyddi'n gofyn am asesiad o ba sgiliau Cymraeg y byddai eu hangen i gyflawni pob rôl o fewn yr awdurdod, sy'n ofynnol gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar gyfer pob sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Byddai hyn hefyd yn cynnwys y rheini sy'n cyflawni gwaith ar ran yr awdurdod (trydydd partïon) y byddai hefyd angen iddynt gydymffurfio â gofynion y mesur fel rhan o gytundeb eu contract.

**Parc Cenedlaethol Eryri – Adroddiad Blynyddol 2023–2024** – Mae'r adroddiad yn egluro sut, drwy reoli treftadaeth ddiwylliannol yr awdurdod, y mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy amrywiol fentrau cynlluniedig, yn ogystal â rhan o'u ffyrdd o weithio, ac wrth gefnogi digwyddiadau diwylliannol sy'n dathlu'r iaith, prosiect 'Geiriau Diflanedig' gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, diogelu'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg, a datblygu'r Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol i hyrwyddo'r Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol Cymru.

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**Ystadegau 2022–2023 | Dysgu Cymraeg** – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2024 ar gyfer blwyddyn academaidd 2022–2023, gyda'r data'n dangos bod cynnydd yn y nifer sy'n dysgu Cymraeg bob blwyddyn. Nid oes data ar leoliad dysgwyr. Gallai hyn fod oherwydd y newid mewn arferion dysgu ers COVID-19, ac mae'r ystadegau'n dangos bod y mwyafrif bellach yn dysgu ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb lle gall dysgwyr ymuno o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

Er bod nifer y dysgwyr yn cynyddu ar lefel mynediad, cafwyd gostyngiad sylweddol yn y nifer sy'n parhau i ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r data ar gyfer 2022–2023 yn dangos y canlynol:

- Roedd 16,905 o ddysgwyr unigryw yn datblygu eu sgiliau iaith gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Roedd 3,215 o'r rheini o lawn oed a oedd yn dysgu rhwng 35 a 44 oed, ac yna 3,210 o ddysgwyr rhwng 25 a 34 oed
- Roedd 13,825 o lawn oed o ethnigrwydd gwyn

- Roedd 11,280 o lawn oed yn dysgu ar lefel mynediad
- Roedd 770 yn dysgu ar lefel hyfedredd – rhugl

**Sut y mae twristiaeth yn cynnal yr economi leol**
Trwy Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sefydlwyd awdurdodau parciau cenedlaethol annibynnol, a rhoddwyd dyletswydd ar y parciau cenedlaethol i
geisio meithrin llesiant economaidd a chymdeithasol cymunedau.

- Mae Parciau Cenedlaethol Cymru – Adroddiad Law yn Llaw er Budd Iechyd a Lles yn crynhoi bod parciau cenedlaethol yn chwarae dwy rôl hanfodol:

- Darparu lleoliadau ar gyfer hybu gweithgareddau iechyd a llesiant, gan gynnwys budd ‘gweithredol’, megis cerdded, a budd ‘goddefol’ fel rhai sy’n deillio o ‘lonyddwch’ a golygfeydd ysbrydoledig.
- Darparu amgylcheddau o ansawdd da ac ecosystem amrywiol lewyrchus sy’n hanfodol i gynnal aer glân, dŵr yfed a thir.

- Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2024 Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU sy’n seiliedig ar ddata ac ystadegau yn 2022–2023. Yn yr adroddiad, nodwyd saith sector twristiaeth, lletygarwch ac is-sectorau o’r diwydiannau twristiaeth yng Nghymru.

Mae prif ganfyddiadau’r adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd 11.8% (159,000) yn cael eu cyflogi yn yr is-sectorau twristiaeth, lletygarwch a’r diwydiant twristiaeth ledled Cymru gyfan
- Roedd 77% (123,000) wedi’u cyflogi ym maes lletygarwch
- Roedd 6.8% (91,000) wedi’u cyflogi mewn gwasanaethau bwyd a diod
- Roedd 1.9% (26,000) wedi’u cyflogi mewn llety i ymwelwyr
- Roedd 56% o’r swyddi yn y sector twristiaeth yn swyddi rhan-amser, tra bod 59% o’r swyddi lletygarwch yn swyddi rhan-amser.

Canran a nifer y bobl yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth, lletygarwch a thwristiaeth

- 26% (41,340) – Y Gogledd
- 8% (12,720) – Y Canolbarth
- 22% (34,980) – Y De-orllewin
- 44% (69,960) – Y De-ddwyrain

Er bod parc cenedlaethol newydd yn debygol o ddenu mwy o dwristiaid i'r ardal, mae'r adroddiad yn dangos bod cyflogaeth o fewn diwydiannau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn sylweddol is na'r cyflog canolrifol o £14.85 yr awr yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023 ar gyfer y sector twristiaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi mai diwydiannau yn gysylltiedig â thwristiaeth oedd 5.1% (£3.8 biliwn) o'r gwerth ychwanegol gros yng Nghymru fel cyfanswm yn 2022. (Ffigurau rhagarweiniol yw'r rhain).

- Mae STEAM (Scarborough Tourism Economic Activity Monitor) yn broses sy'n modelu effaith economaidd twristiaeth sy'n casglu mesuriadau o dwristiaeth o'r gwaelod i fyny, trwy ei defnydd o ddata lleol a thrwy gasglu data ynghylch perfformiad twristiaeth ac arolygon ymwelwyr.

  Mae'r adroddiadau STEAM a thwristiaeth y gellir dod o hyd iddynt yn y dolenni isod yn dangos cynnydd mewn twristiaeth yn yr awdurdodau lleol o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Mae sefydlu parc cenedlaethol yn debygol o ddenu mwy o dwristiaeth i'r ardaloedd dan sylw, a fydd o fudd i'r economi leol o fewn y ffiniau a thu hwnt, o ystyried arosiadau dros nos, siopau bwyd ac ati.

Adroddiad Blynyddol STEAM 2022 – Cyngor Sir Powys – nifer yr ymwelwyr yn cynyddu, er yn is na'r ffigurau cyn y pandemig.

- Effaith economaidd – £1.12 biliwn
- Dyddiau ymwelwyr – 11.75 miliwn

Sir Ddinbych yn gweld cynnydd mewn ffigurau twristiaeth yn 2023 | Cyngor Sir Dinbych – mae ffigurau twristiaeth wedi cynyddu yn 2023.

- Effaith economaidd – £736.05 miliwn
- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr – 6.39 miliwn, ymwelwyr dydd – 7.72 miliwn

Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint

- Effaith economaidd – £259 miliwn

- Ymwelwyr dros nos – 3.7 miliwn, ymwelwyr dydd – 2.7 miliwn

Data newydd yn datgelu effaith sylweddol twristiaeth ar Wrecsam – mae ffigurau twristiaeth yn cynyddu'n flynyddol.

- Effaith economaidd – £151 miliwn
- Ymwelwyr dydd – 1.9 miliwn, ymwelwyr dros nos 430,000

Crynodeb STEAM 2023 Cyngor Gwynedd – ffigurau twristiaeth ar gyfer 2022

- Effaith economaidd – £1.72 biliwn
- Cyfanswm nifer yr ymwelwyr – 8.02 miliwn, nifer yr ymwelwyr yn aros – 4.07 miliwn, ymwelwyr dydd – 3.95 miliwn

Ystadegau ac ymchwil twristiaeth | Ymweld ag Eryri

Mae'r ymchwil uchod yn dangos bod twristiaeth yn tyfu'n organig yn yr ardal, sy'n agos at y ffin â Lloegr ac o fewn pellter teithio hawdd i rai o'i threfi a'i dinasoedd mawr. Ers dyfodiad COVID-19 ceir cynnydd yn nifer ac amrywiaeth y bobl sy'n ymweld ag ardaloedd gwledig, gyda'r cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rôl ddylanwadol wrth hyrwyddo nodweddion nad oeddent yn hysbys i dwristiaid o'r blaen. Wrth ddynodi parc cenedlaethol newydd, mae'n debygol y bydd y ffigurau hyn yn cynyddu gyda'r posibilrwydd y byddai mwy o swyddi'n cael eu creu yn y diwydiant twristiaeth o fewn ffiniau'r parc a thu hwnt. Er y bydd hyn yn darparu cyflogaeth i'r rheini sy'n byw yn y cymunedau, rhaid cydnabod bod canran uchel o'r swyddi yn y diwydiant twristiaeth yn swyddi rhan-amser tymhorol ac yn talu'r isafswm cyflog neu ychydig yn uwch na hynny.

Byddai creu awdurdod parc cenedlaethol newydd, drwy ei bolisïau a'i weithdrefnau, yn hyrwyddo ac yn gwarchod y Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru drwy ei waith bob dydd a'i waith ymgysylltu.

**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 – Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

Mae un o bedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fydd yn sail i'r cymorth a'r rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn ystyried y Gymraeg a pha mor bwysig yw hi i'r sector amaethyddol a chymunedau. Mae hyn yn helpu i gyfrannu at y nodau llesiant o dan adran 4 o'r ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

*Gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni. Byddwn yn cefnogi camau a fydd yn gwarchod ac yn gwella cefn gwlad a'i*

*draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg. Byddwn yn gweithio hefyd i wneud ein mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i bawb er mwyn i Gymru gyfan allu gwerthfawrogi’n tir a ffermio.*

**Ffermio Bro: Cynllun newydd i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig – Tirweddau Cymru** – Bydd y cynllun newydd hwn yn darparu cymorth a chyllid ychwanegol i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig er mwyn cynnal arferion ffermio sy’n ystyriol o fyd natur ym mharciau a thirweddau cenedlaethol Cymru. Bydd angen i ymgeiswyr fodloni maen prawf penodol i’r corff tirwedd ddynodedig er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, sy’n cynnwys amod mewn perthynas â’r Gymraeg:

- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a’u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso’r defnydd ohoni.

**Ymgysylltu â’r broses o ddrafftio asesiad o’r effaith ar y Gymraeg**

Fel rhan o’n gwaith yn drafftio’r asesiad hwn o’r effaith ar y Gymraeg, manteisiwyd ar y cyfle i ymgysylltu â swyddogion Cymraeg awdurdodau lleol sydd o fewn ffiniau arfaethedig y parc cenedlaethol i drafod polisïau, strategaethau a chynlluniau a oedd ganddynt ar waith ac yn ystyried y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil a oedd ganddynt mewn perthynas â’r effaith y gallai twristiaeth ei chael ar y defnydd o’r Gymraeg yn eu hardaloedd nhw. Gellir dod o hyd i wybodaeth a rennir gan yr awdurdodau lleol yn yr asesiad hwn.

Cynhaliwyd trafodaethau â’r awdurdodau lleol canlynol:

Cyngor Sir Powys
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Gwynedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Fel rhan o’r gwaith hwn rydym hefyd wedi gofyn am gyfarfodydd â swyddogion Cymraeg Parc Cenedlaethol Eryri, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; unwaith eto i gael dealltwriaeth o waith y parciau cenedlaethol, yn ogystal â pha bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau y mae’n ofynnol iddynt eu cael, ynghyd ag unrhyw ymchwil neu ganfyddiadau a oedd ganddynt ar effaith twristiaeth ar y defnydd o’r Gymraeg. Gellir dod o hyd i wybodaeth o’r ymrwymiadau hynny yn yr asesiad hwn.

Cynhaliwyd trafodaethau â’r canlynol:

Parc Cenedlaethol Eryri
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

| |
|---|
| Gwnaethom hefyd gyfarfod â staff o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Mehefin 2024 ac ym mis Mawrth 2025 i ofyn am eu cyngor a'u cyfarwyddyd ynghylch sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r effaith y gallai'r penderfyniad i ddynodi parc cenedlaethol newydd yng Nghymru ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a sicrhau bod gennym ddigon o dystiolaeth i ategu ein canfyddiadau. |

## Asesu effaith

Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n gyfartal â'r Saesneg. Fel rhan o'u dyletswyddau, mae'n ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus nodi unrhyw effeithiau ar y Gymraeg. Ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ni ddylai'r iaith gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr adran hon mae angen ystyried yr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai'r cynnig eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Er y bydd effeithiau rhai o'r cynigion yn fwy nag eraill, wrth i nifer yr effeithiau gynyddu bydd angen gwneud mwy o ymdrech i ddangos yr effeithiau hynny'n glir. Fan leiaf mae angen nodi effeithiau cadarnhaol, andwyol a dibwys i ddangos y gwnaed ymdrech gydwybodol i nodi'r effeithiau.

| **Effeithiau a nodwyd** |
|---|
| **Effeithiau uniongyrchol – Cadarnhaol**<br><br>Un o ddibenion parciau cenedlaethol yw – *cadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol y parciau cenedlaethol* o dan Ddeddf yr Amgylchedd (2015).<br><br>Mae dynodiad parc cenedlaethol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o fewn ffiniau'r parc sydd ag ardaloedd dwys o ran siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd. Byddai gwaith awdurdod y parc cenedlaethol yn cynnwys sicrhau bod eu holl wasanaethau a gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg gan hyrwyddo iaith, diwylliant a hanes Cymru fel rhan o'u gwaith bob dydd ar draws yr awdurdod. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant ymhlith cynulleidfa ehangach na'r gynulleidfa bresennol sydd eisoes yn ymweld â'r ardal gyfan, gan ei chadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br><br>Mae sefydlu awdurdod parc cenedlaethol yn debygol o greu swyddi fel sefydliad sydd â rolau amrywiol ar draws ffiniau'r parc. Fel sefydliad cyhoeddus, bydd angen asesu sgiliau Cymraeg pob swydd newydd neu wag. Bydd nifer o rolau o fewn yr awdurdod yn rolau sy'n wynebu'r cyhoedd, a bydd angen sgiliau Cymraeg i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. |

Byddai cynllun rheoli yn cael ei ddatblygu a byddai'n cynnwys sut y byddai'r awdurdod yn gofalu am gefn gwlad, cadwraeth a bywyd gwyllt, diwylliant a threftadaeth ac unrhyw rinweddau arbennig eraill o fewn ffiniau'r parc. Byddai ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun yn ogystal â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai angen drafftio asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynllun i asesu'r effaith bosibl y byddai'r cynllun yn ei chael ar y defnydd o'r iaith o fewn ffiniau'r parc, a pha gamau y gallai'r cynllun eu cynnwys i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol.

Byddai gan yr awdurdod rwymedigaeth statudol i ddatblygu cynllun datblygu ardal leol (CDLl) yn nodi fframwaith cynllunio ynghylch defnyddio tir ar gyfer y parc cenedlaethol ac yn darparu sylfaen i benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn ffiniau'r parc. Byddai angen i'r cynllun, wrth ei ddatblygu, ystyried strategaethau, materion ac amcanion lleol, ac ystyried sut y byddai'r cynllun yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, a pha mor gynaliadwy yw cymunedau. Byddai angen drafftio asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynllun i asesu'r effaith bosibl y byddai'r cynllun yn ei chael ar y defnydd o'r iaith o fewn ffiniau'r parc, a pha gamau y gallai'r cynllun eu cynnwys i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol.

Byddai'r cynllun datblygu lleol yn creu cysondeb o ran unrhyw ddatblygiadau o fewn ffiniau'r parc, sydd ar hyn o bryd yn perthyn i'r pum awdurdod lleol o fewn ffiniau arfaethedig y parc, y mae gan bob un ohonynt eu cynlluniau datblygu lleol eu hunain a blaenoriaethau ac amcanion gwahanol mewn perthynas â diogelu'r iaith, treftadaeth a diwylliant Cymru, a gwarchod cymunedau sy'n siarad Cymraeg rhag cael eu gwanhau ymhellach sy'n nodweddion cymdeithasol a diwylliannol rhai o'r cymunedau o fewn y ffiniau.

**Ffermio Bro: Cynllun newydd i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig – Tirweddau Cymru** – Bydd y cynllun newydd hwn yn darparu cymorth a chyllid ychwanegol i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig er mwyn cynnal arferion ffermio sy'n ystyriol o fyd natur ym mharciau a thirweddau cenedlaethol Cymru. Bydd angen i ymgeiswyr fodloni maen prawf penodol i'r corff tirwedd ddynodedig er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys amod mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'n debygol iawn y bydd gan yr awdurdod parc cenedlaethol newydd enw Cymraeg yn unig, gan gyflwyno hunaniaeth Gymraeg i sefydliad cyhoeddus newydd.

**Effaith uniongyrchol – Dibwys**

Ni nodwyd unrhyw effaith uniongyrchol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ein gwaith i werthuso'r achos dros y parc cenedlaethol newydd arfaethedig yng Nghymru. Ni fyddai gan y dynodiad ei hun unrhyw effaith uniongyrchol o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn oherwydd bod adran 5(2) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 yn

| |
|---|
| rhestru'r meini prawf y mae'n rhaid i CNC eu hystyried wrth ystyried dynodiad parc cenedlaethol. Mae'r ddeddf yn diffinio bod yn rhaid i barc cenedlaethol fod yn 'ddarn mawr o dir yng Nghymru' sydd, yn ôl CNC, yn bodloni gofynion statudol oherwydd:<br><br>(a) ei harddwch naturiol, a<br><br>(b) y cyfleoedd y mae'n eu cynnig ar gyfer hamdden awyr agored o ystyried ei gymeriad a'i safle mewn perthynas â chanolfannau poblogaeth, lle ystyrir y gellid eu dynodi fel parc cenedlaethol ar sail y ffaith ei fod yn arbennig o ddymunol. Felly, harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored yw'r meini prawf ar gyfer dynodi y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i ardal gael ei dynodi. Mae dibenion parc cenedlaethol, ar ôl ei ddynodi, wedi'u hamlinellu yn adran 5(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 fel a ganlyn:<br><br>• gwarchod a gwella ei harddwch naturiol, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol, a<br>• hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardaloedd hyn<br><br>Os caiff y dynodiad ei gymeradwyo, cychwynnir ar y gwaith o sefydlu awdurdod parc cenedlaethol. |
| **Effeithiau uniongyrchol – Andwyol**<br><br>Oherwydd pa mor agos yw'r ffin â Lloegr, mae'n debygol y bydd y parc cenedlaethol yn denu mwy o dwristiaid i'r ardal. Efallai na fydd rhai ymwelwyr yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw'r iaith a'i rôl yn niwylliant Cymru, gan gynyddu'r defnydd o'r Saesneg yn yr ardal.<br><br>Effaith twristiaeth gynyddol ar gymunedau lleol o fewn y ffiniau, sy'n cynnwys cymunedau Cymraeg sy'n tueddu i fod mewn ardaloedd mwy gwledig, a chymunedau ffermio, gyda mwy o ymwelwyr yn defnyddio cefn gwlad a'r problemau ychwanegol y bydd hyn yn eu hachosi i'r cymunedau ffermio sy'n siarad Cymraeg yn bennaf.<br><br>Canfu tystiolaeth fod canran uchel o ail gartrefi yn awdurdodau lleol Gwynedd a Sir Benfro, dwy ardal lle mae parciau cenedlaethol eisoes yn bodoli.<br><br>Mae ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun Cymunedau Cymraeg yn dangos nad yw trigolion lleol mewn rhai ardaloedd, e.e. Gwynedd, yn gallu fforddio prynu cartrefi newydd oherwydd y bwlch rhwng y cyflog cyfartalog a enillir a phrisiau tai. Gallai cynnydd yn nifer y tai sy'n cael eu prynu ar gyfer defnydd gwyliau neu ail gartrefi arwain at gynnydd ym mhrisiau tai, ac mae hyn yn debygol o leihau argaeledd a fforddiadwyedd y stoc dai i bobl leol, gan arwain at bobl ifanc a phobl leol yn ymadael â'r ardal i ddod o hyd i waith gyda chyflogau gwell, a chyfle gwell i allu fforddio prynu eiddo. Mae'r allfudo hwn, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg, yn effeithio ar hyfywedd ieithyddol cymunedau. |

| |
|---|
| **Effaith anuniongyrchol – Cadarnhaol**<br><br>Mae creu parc cenedlaethol yn debygol o gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn y sector twristiaeth a lletygarwch o fewn ei ffiniau, gan arwain at greu cymunedau cynaliadwy, gan gynnwys cymunedau Cymraeg, o fewn ffiniau'r ardal.<br><br>Byddai parc cenedlaethol newydd hefyd yn debygol o ddenu busnesau newydd i ddatblygu atyniadau ymwelwyr gan greu cyflogaeth newydd yn yr ardal.<br><br>Mae'n debygol y bydd y rhieni sy'n siarad Cymraeg a'r rheini sy'n datblygu eu sgiliau iaith, sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, yn dymuno i'w plant gael addysg Gymraeg, ac yn fwy tebygol o fod eisiau byw mewn cymunedau Cymraeg, gan helpu i gynnal y cymunedau hynny a'r iaith ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae'n debygol mai'r ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg o fewn ffiniau'r parc fydd y rheini yn yr ardaloedd gwledig o fewn y ffiniau, ac sy'n gweithio yn y sector amaethyddol ac yn dod o gymunedau ffermio, sydd hefyd yn gymunedau Cymraeg yn bennaf o fewn yr ardal. Mae dynodiad parc cenedlaethol yn darparu cyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio i ddarparu ar gyfer y diwydiant twristiaeth a allai ddarparu cyfle i gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg. |
| **Effeithiau anuniongyrchol – Dibwys**<br><br>Mae cofnodion yn dangos bod nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r ardal eisoes wedi bod yn cynyddu. O ystyried pa mor agos yw'r ardal at y ffin, y mae eisoes yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr sydd eisoes yn dod i'r ardal fel ymwelwyr dydd. |
| **Effaith anuniongyrchol – Andwyol**<br><br>Oherwydd bod y ffin â Lloegr mor agos, gallai'r cynnydd mewn cyfleoedd gwaith arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n croesi'r ffin ac yn teithio i Gymru i weithio, a gallai hyn leihau cyfleoedd gwaith i drigolion lleol.<br><br>Gall perchnogion eiddo wneud mwy o incwm drwy osod tai gwyliau tymor byr nag o rentu'n barhaol i deuluoedd lleol, felly mae'r opsiynau marchnad rhentu i drigolion lleol yn parhau i leihau. Gallai hyn arwain at beidio â chael digon o drigolion parhaol i gynnal cymunedau lleol neu eu heconomïau, e.e. ysgolion, siopau, busnesau, grwpiau cymunedol ac ati, a gallai hyn gael effaith andwyol ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg yn y gymuned, gan y byddai'r cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn diflannu. |

| |
|---|
| Gall nifer llai o blant yn y gymuned arwain at gau ysgolion lleol, meithrinfeydd a chylchoedd meithrin sy'n darparu addysg Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae cau ysgolion a chyfleusterau o'r fath yn effeithio ar y gymuned, a byddai plant yn gorfod teithio i gael addysg, a allai fod yn gryn bellter mewn ardaloedd gwledig. Mae cyfleusterau cyfleus o fewn y gymuned yn helpu i gynnal cymunedau gwledig, gydag ysgolion yn aml yn cael eu gweld fel canolfan gymunedol wrth ddod â phobl ynghyd. |
| **Pa gamau gweithredu y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| CNC yw cynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar dirwedd a harddwch naturiol, a'r awdurdod dynodi ar gyfer unrhyw barc cenedlaethol neu dirwedd genedlaethol (AHNE) newydd. O ganlyniad, comisiynodd Llywodraeth Cymru CNC i werthuso'r achos dros y dynodiad hwn.<br><br>Ein rôl ni yn y broses yw bod yn annibynnol a gwneud argymhelliad yn seiliedig ar dystiolaeth er budd pobl Cymru, gan ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol. Rhan o'r gofynion o dan ein polisi o ran safonau'r Gymraeg yw ein bod yn cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, sy'n nodi'r effeithiau y byddai dynodi parc cenedlaethol newydd yn debygol o'u cael ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Cynhaliodd CNC gyfnod ymgysylltu cynnar yn 2023 ac ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 pan ofynnwyd cwestiynau mewn perthynas â'r effaith y byddai dynodi parc cenedlaethol newydd yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau am y Gymraeg wedi cael eu dadansoddi a'u hystyried er mwyn sicrhau bod yr asesiad wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg, yn cynnwys effeithiau cadarnhaol, negyddol a dibwys, ac yn nodi pa gamau y gellir eu cymryd i liniaru'r effeithiau negyddol a nodwyd.<br><br>Pe sefydlir awdurdod parc cenedlaethol newydd, efallai y byddai angen cynnal asesiad ar ar wahân o'r effaith ar y Gymraeg, ond dylid ystyried y camau canlynol fel ffordd o liniaru'r risgiau a nodwyd yn dilyn asesiad ac adborth o'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori:<br><br>Byddai awdurdod parc cenedlaethol newydd fel sefydliad cyhoeddus yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddai'n ofynnol i'r awdurdod ddrafftio a chyhoeddi polisi safonau'r Gymraeg ar ei wefan yn egluro pa wasanaethau y byddai'n eu darparu i'r cyhoedd a'i staff ei hun yn y Gymraeg, a sut y byddai'n mynd ati i wneud hynny. |

Byddai'r safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddatblygu strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi sut y byddai'r awdurdod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'i waith o fewn ffiniau'r parc. Byddai angen i'r strategaeth gynnwys amcanion ynghylch sut y gellid hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei gwaith a meysydd dylanwad.

Fel rhan o roi safonau'r Gymraeg ar waith, byddai'n ofynnol i'r awdurdod asesu pob swydd newydd neu wag y mae'n bwriadu ei hysbysebu o ran sgiliau Cymraeg, a nodi a ydyw'r sgìl yn hanfodol, yn ddymunol neu'n cael ei datblygu pan benodir yr ymgeisydd llwyddiannus i'r swydd, neu nad oes angen unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl.

Mae thema 3 o strategaeth Cymraeg 2050 yn pwysleisio creu amodau ffafriol i ddiogelu'r Gymraeg a'i galluogi i ffynnu, yn benodol gyda'r nod o 'gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg'. Mae llawer o ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn rhai â chyfran uwch o'r boblogaeth yn gweithio mewn amaethyddiaeth, y sector cyhoeddus a thwristiaeth. Mae Cymraeg 2050 yn nodi ei bod yn bwysig cynnal a thyfu cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 yn dangos dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y cymunedau mwy gwledig ac yn y cymunedau ffermio o fewn ffiniau arfaethedig y parc.

**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 – Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy**

Mae un o bedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a fydd yn sail i'r cymorth a'r rheoleiddio amaethyddol yng Nghymru yn ystyried y Gymraeg a pha mor bwysig yw hi i'r sector amaethyddol a chymunedau. Mae hyn yn helpu i gyfrannu at y nodau llesiant o dan adran 4 o'r ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:

*Gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni. Byddwn yn cefnogi camau a fydd yn gwarchod ac yn gwella cefn gwlad a'i draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Byddwn yn gweithio hefyd i wneud ein mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i bawb er mwyn i Gymru gyfan allu gwerthfawrogi'n tir a ffermio.*

**Ffermio Bro: Cynllun newydd i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig – Tirweddau Cymru** – Bydd y cynllun newydd hwn yn darparu cymorth a chyllid ychwanegol i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig er mwyn cynnal arferion ffermio sy'n ystyriol o fyd natur ym mharciau a thirweddau cenedlaethol Cymru. Bydd angen i ymgeiswyr fodloni maen prawf penodol i'r corff tirwedd ddynodedig er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys amod mewn perthynas â'r Gymraeg:

- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi bod gan barciau cenedlaethol Cymru ddau ddiben:

- cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y parciau cenedlaethol, a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig (y parc)

Mae gan awdurdodau parciau cenedlaethol ddyletswyddau cyfreithiol i wneud y canlynol:

- paratoi cynllun rheoli ar gyfer ardal y parc cenedlaethol, ymgynghori arno, a'i gyhoeddi
- ceisio hybu llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol sy'n rhan o'r parc cenedlaethol
- paratoi'r cynllun datblygu lleol, ymgynghori arno, a'i gyhoeddi
- ymgymryd â swyddogaeth cynllunio rheoli'r datblygiad lleol

Bydd gofyn i awdurdod parc cenedlaethol newydd ddatblygu CDLl mewn perthynas â rheoliadau cynllunio o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Bydd hyn yn creu rheolau cynllunio mwy cyson ar draws y parc a'r awdurdodau lleol o fewn y ffin. Bydd datblygu CDLl yn destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg o fewn ffiniau'r parc.

Mae CDLl yn debygol o helpu i greu cymunedau mwy cytbwys wrth warchod eu hanghenion a chreu cyfleoedd i bobl fyw'n lleol. Byddai hyn, ymhen amser, yn gwella cyfleoedd i bobl fyw yn eu cymunedau cartref a fydd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei defnyddio yn y cymunedau hyn yn y dyfodol. Gallai awdurdod y parc cenedlaethol ystyried cyflwyno cyfarwyddyd erthygl 4. Byddai hyn yn yr hirdymor yn creu cymunedau cynaliadwy, gan sicrhau cyflenwad digonol a dewis addas o dai sy'n diwallu anghenion pobl leol. Gall nifer uchel o lety gwyliau ac ail gartrefi ('tai gwyliau') fod yn fygythiad gwirioneddol i ffyniant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cymunedau. Heb ymyrraeth, gallai prisiau tai gynyddu gan olygu na fyddai pobl leol yn gallu eu fforddio. O bosibl, byddai hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl iau neu deuluoedd â phlant symud allan o'u cymunedau i gael gafael ar dai fforddiadwy. Wedi hynny, byddai pobl fwy cyfoethog, sy'n debygol o fod yn hŷn, yn symud i mewn i'r cymunedau lleol.

Byddai Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod y parc cenedlaethol baratoi cynllun rheoli ar gyfer y parc cenedlaethol. Byddai'r cynllun yn cynnwys sut y byddai'r awdurdod yn gofalu am gefn gwlad, cadwraeth a bywyd gwyllt, diwylliant a threftadaeth ac unrhyw rinweddau arbennig eraill o fewn ffiniau'r parc. Byddai ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun yn ogystal â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Byddai gan awdurdod parc cenedlaethol newydd y potensial i sicrhau cysondeb o ran materion yn ymwneud â pholisi'r Gymraeg o fewn ei gymhwysedd.

**I'w ystyried gan awdurdodau lleol o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol**

| |
|---|
| Dylai awdurdodau lleol o fewn ffiniau map yr ardal ymgeisiol ystyried pwerau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru, sy’n nodi bod cynnal economi gref, yn ogystal â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy, yn angenrheidiol i greu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu. Mae pwerau wedi’u hymestyn i awdurdodau lleol i godi cyfradd premiwm y dreth gyngor dewisol ar ail gartrefi a chartrefi gwag o 1 Ebrill 2023. |

# Camau gweithredu ac argymhellion

Nodwch isod beth yw’r camau gweithredu a’r argymhellion a gynigir i liniaru neu gynyddu’r effaith y gallai’r cynnig ei chael ar y gallu i ddefnyddio’r Gymraeg.

Dylid cynnwys yr holl gamau gweithredu ac argymhellion a nodwyd yma, gan gynnwys pa gamau gweithredu a gymerir i liniaru neu leihau effeithiau negyddol.

# Y camau a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

| **Y camau gweithredu ac argymhellion a nodwyd** | **Beth ydych chi’n mynd i’w wneud?** | **Beth fydd y canlyniad bwriadedig / y gwahaniaeth a fydd yn cael ei wneud?** | **Pwy sy’n gyfrifol?** | **Amserlen ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg | Drafftio asesiad o’r effaith ar y Gymraeg i nodi a ydyw’r cynnig yn debygol o effeithio ar y defnydd o’r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Bydd yr asesiad yn cael ei ddefnyddio fel rhan o’r broses benderfynu i ddynodi parc cenedlaethol newydd, gyda chamau gweithredu wedi’u nodi, y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a nodwyd, neu i gyfrannu’n well at yr effeithiau cadarnhaol. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyn gwneud penderfyniad ynghylch dynodi parc cenedlaethol newydd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Parhau i ddarparu cyfle cyfartal i bobl ymgysylltu â’r broses asesu yn y Gymraeg | Hyrwyddo a darparu dewis iaith rhagweithiol yn ystod y broses ymgynghori. | Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu ymgysylltu â ni yn eu dewis iaith. | Cyfoeth Naturiol Cymru | Yn ystod y broses ymgynghori |

## Y camau gweithredu ac argymhellion a nodwyd i liniaru neu leihau’r effaith negyddol ar gyfer yr awdurdod parc cenedlaethol newydd

| **Y camau gweithredu ac argymhellion a nodwyd** | **Beth ydych chi’n mynd i’w wneud?** | **Beth fydd y canlyniad bwriadedig / y gwahaniaeth a fydd yn cael ei wneud?** | **Pwy sy’n gyfrifol?** | **Amserlen ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| Byddai awdurdod parc cenedlaethol newydd fel sefydliad cyhoeddus yn ddarostyngedig i safonau’r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | Datblygu polisi safonau’r Gymraeg yn egluro pa wasanaethau y byddai’n eu darparu i’r cyhoedd a’i staff ei hunan yn y Gymraeg, a sut, a’i gyhoeddi ar wefan yr awdurdod. | Sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg bob amser yn gyfartal â’r rheini sydd ar gael yn Saesneg. Trin y Gymraeg a’r Saesneg yn gyfartal. | Yr awdurdod parc cenedlaethol | I’w drafod â Chomisiynydd y Gymraeg |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Byddai'r awdurdod yn ddarostyngedig i reoliad rhif 1 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a byddai'n ofynnol iddo ddatblygu strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg. | Datblygu strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg yn nodi sut y byddai'r awdurdod yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'i waith o fewn ffiniau'r parc. | Byddai angen i'r strategaeth gynnwys amcanion ynghylch sut y gellid hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei gwaith a meysydd dylanwad. | Yr awdurdod parc cenedlaethol | I'w drafod â Chomisiynydd y Gymraeg |
| Hysbysebu swyddi newydd neu wag | Asesu gofynion pob swydd newydd neu wag y mae'r awdurdod yn bwriadu ei hysbysebu o ran sgiliau Cymraeg, a nodi a ydyw sgiliau iaith yn hanfodol, yn ddymunol neu a ddylid eu datblygu pan benodir yr ymgeisydd llwyddiannus i'r swydd, neu nad oes angen unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. | Sicrhau bod digon o gapasiti a gallu i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol yn y Gymraeg fel sefydliad cyhoeddus. | Yr awdurdod parc cenedlaethol | Fel rhan o roi polisi safonau'r Gymraeg ar waith |
| Ffermio Bro: Cynllun newydd i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig | Bydd y cynllun newydd hwn, sy'n debygol o gael ei reoli gan yr awdurdod, yn darparu cymorth a chyllid ychwanegol i ffermwyr mewn tirweddau dynodedig i gefnogi | Bydd angen i ymgeiswyr fodloni maen prawf penodol i'r corff tirwedd ddynodedig er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun, sy'n cynnwys amod mewn perthynas â'r Gymraeg: | Yr awdurdod parc cenedlaethol | I'w gadarnhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | arferion ffermio sy'n gyfeillgar i natur ym mharciau a thirweddau cenedlaethol Cymru. | • Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni. | | |
| Datblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) | Bydd gofyn i awdurdod parc cenedlaethol newydd ddatblygu CDLl mewn perthynas â rheoliadau cynllunio o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. | Bydd hyn yn creu rheolau cynllunio mwy cyson ar draws y parc a'r awdurdodau lleol o fewn y ffin. Bydd datblygu CDLl yn destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg er mwyn sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio yn effeithio'n negyddol ar y Gymraeg o fewn ffiniau'r parc. | Yr awdurdod parc cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Byddai Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod y parc | Y cynllun rheoli i gynnwys sut y byddai'r awdurdod yn gofalu am gefn gwlad, cadwraeth | Sicrhau nad yw'r cynllun yn effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg nac ar drin | Yr awdurdod parc cenedlaethol | I'w gadarnhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cenedlaethol baratoi cynllun rheoli ar gyfer y parc cenedlaethol. | a bywyd gwyllt, diwylliant a threftadaeth ac unrhyw rinweddau arbennig eraill o fewn ffiniau'r parc. Byddai ystyriaethau'r Gymraeg yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu'r cynllun yn ogystal â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a diogelu diwylliant a threftadaeth o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. | | |
| Ystyried Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru | Ystyried pwerau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u hymestyn i awdurdodau lleol, i godi cyfradd premiwm dewisol y dreth gyngor ar ail gartrefi a chartrefi gwag o 1 Ebrill 2023. | Helpu i gynnal economi gref yn ogystal â bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu. | Awdurdodau lleol ger ffiniau'r parc | I'w ystyried |

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg Fersiwn 1 Cwblhawyd gan:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Lyn Williams | Cynghorydd Arbenigol yr Iaith Gymraeg | 28.5.25 |

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg Fersiwn 1 Adolygiad gan:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Keith Davies | Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig | 2.6.2025 |

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg Fersiwn 1 Wedi'i gymeradwyo cyn penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gan:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Ash Pearce | Rheolwr Rhaglen Tirweddau Dynodedig / Arweinydd Tîm | 2.6.2025 |

# Crynodeb o benderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddynodiad parc cenedlaethol newydd

Mae ffin yr ymgeisydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol wedi'i diweddaru i ffin arfaethedig derfynol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn dilyn **y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn 2024 a gwerthusiad manwl dilynol o'r ffin fanwl yn dilyn y confensiynau gosod ffiniau a nodir yn GN10**. Mae'r diwygiadau'n gwella cydlyniant ac amddiffynadwyedd y ffin arfaethedig ac yn gwella aliniad â'r meini prawf dynodi statudol, harddwch naturiol a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.

Mae'r ffin arfaethedig yn cynnwys twyni Gronant a Thalacre ac yn cadw tirwedd nodedig Bryniau Clwyd a ucheldiroedd Berwyn ac ardaloedd cysylltiedig agos o harddwch naturiol nodedig, gyda thawelwch a gwylltineb, cynefinoedd a rhywogaethau o werth uchel a chyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored.

Mae ardaloedd a gedwir yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ecolegol, adfer mawndir ac i ffermio elwa o gymorthdaliadau a chyllid amaethyddol sy'n canolbwyntio ar natur.

Mae ardaloedd o Bowys a oedd wedi'u cynnwys yn y ffin ymgeisydd wedi'u heithrio o'r ffin arfaethedig derfynol oherwydd y dangosiad llai clir o gydlyniant cyffredinol y meini prawf dynodi yn yr ardaloedd hyn.

**Enw'r Parc Cenedlaethol**

Parc Cenedlaethol - **Glyndŵr** – Parc Cenedlaethol yw'r enw arfaethedig o hyd. Mae ganddo gysylltiad hanesyddol, diwylliannol a daearyddol cryf â'r ardal ffin arfaethedig. Bydd defnyddio Glyndŵr yn rhoi hunaniaeth Gymreig i'r Parc Cenedlaethol o'r cychwyn cyntaf.

Awdurdodwyd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad statudol ar Barc Cenedlaethol yn eu cyfarfod ar 16.7.25.


# Adolygiad Camau Gweithredu Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg 23.7.2025 – yn dilyn penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

## Y camau gweithredu ac argymhellion a wnaed gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru

| Y camau gweithredu ac argymhellion a nodwyd | Beth ydych chi'n mynd i'w wneud? | Beth fydd y canlyniad bwriadedig / y gwahaniaeth a fydd yn cael ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Amserlen ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Diweddaru Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg | Cynnwys map o'r ffin arfaethedig newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol | Gwybodaeth wedi'i diweddaru yn dilyn penderfyniad Bwrdd NRW ar 16.7.25 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyn ymgynghoriad statudol |
| | Cynnwys map wedi'i ddiweddaru sy'n dangos sgiliau siarad Cymraeg y rhai sy'n byw o fewn y ffin arfaethedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol | Gwybodaeth wedi'i diweddaru yn dilyn penderfyniad Bwrdd NRW ar 16.7.25 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyn ymgynghoriad statudol |
| | Asesu a oes gan y newid i'r ffin arfaethedig unrhyw oblygiadau pellach o ran defnyddio'r iaith Gymraeg neu o ran trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Provide updated information for feedback and making informed decisions as part of statutory consultation on proposed boundary | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyn ymgynghoriad statudol |

# Adolygiad o’r asesiad o’r effaith ar y Gymraeg yn dilyn penderfyniad Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 16.7.2025

| |
|---|
| Mae'r map isod yn dangos sgiliau siarad Cymraeg y rhai sy'n byw o fewn ardal ffin derfynol arfaethedig y Parc Cenedlaethol. |


Welsh Speaking Skills in the Proposed Boundary
Proposed Boundary
Local authority
Welsh border
Welsh Language by Output Area
Welsh speaking population
<= 10%
10-20%
20-30%
30-40%
40-50%
50-60%
60-70%
70-80%
80-90%
*statistics derived from the total population of the output areas, not population within the candidate area
Sir y Fflint - Flintshire
Conwy - Conwy
Sir Ddinbych - Denbighshire
Wrecsam - Wrexham
Gwynedd - Gwynedd
Powys - Powys
Shropshire
LLANGOLLEN
N
0 5 10 km
Map Scale: 1:200,000 @ A3
Contains Natural Resources Wales information © Natural Resources Wales and Database Right. All rights Reserved. Contains Ordnance Survey Data. Ordnance Survey licence number AC0000849444. © Office of National Statistics (ONS). © Getmapping Plc and Bluesky International Limited [2018].

# Asesiad o Effaith yn dilyn diweddariad i'r ffin arfaethedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol

Mae'r newid uchod o'r ardal ymgeisydd i'r ffin arfaethedig ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn tynnu sylw at yr ardaloedd â dwyseddau siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith o fewn y ffin arfaethedig. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y bydd yr asesiad ar yr effeithiau ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a wnaed yn fersiwn 1 o'r asesiad hwn yn newid oherwydd y newid ffin arfaethedig a'r cymeradwyaeth gan Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru i fwrw ymlaen ag ymgynghoriad statudol.

Mae effeithiau ychwanegol wedi'u nodi isod oherwydd y newid yn y ffin: -

**Effaith Uniongyrchol Gadarnhaol ar godi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg**
Mae cynnwys Twyni Gronant a Thalacre, sydd wedi'u lleoli mewn ardal lle mae canran isel, a niferoedd isel, o siaradwyr Cymraeg, yn debygol o gynyddu gweledEDD yr iaith oherwydd dehongli a gwybodaeth ddwyieithog gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn debygol o godi ymwybyddiaeth o iaith, diwylliant a hanes yr ardal ynghyd â'r enwau a'r termau Cymraeg ar gyfer bywyd gwyllt, cynefinoedd a rhywogaethau o fewn y twyni. Mae gan yr ardal arfordirol hon niferoedd uchel o dwristiaid gan ei bod yn agos at y ffin â Lloegr. Bydd gwaith y Parc Cenedlaethol o fewn yr ardal yn codi ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r iaith Gymraeg i'r rhai sy'n ymweld â'r ardal o Gymru a thu hwnt.

**Effaith Uniongyrchol Gadarnhaol ar godi ymwybyddiaeth o'r iaith, hanes a diwylliant Cymru**
Parc Cenedlaethol - **Glyndŵr** – National Park. Bydd y penderfyniad i ddefnyddio'r enw Glyndŵr yn rhoi hunaniaeth Gymreig i'r Parc Cenedlaethol sydd â chysylltiad hanesyddol, diwylliannol a daearyddol cryf â'r ardal ffin arfaethedig.

**Effeithiau ar eithrio ardaloedd ym Mhowys o'r ffin arfaethedig**
Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r effeithiau a nodwyd yn fersiwn 1 o'r asesiad hwn hefyd yn effeithio ar ardaloedd o Bowys sydd bellach wedi'u heithrio o ffin arfaethedig y Parc Cenedlaethol oherwydd agosrwydd yr ardal a'r cymunedau at y ffin arfaethedig. Bydd rhai o'r effeithiau a nodwyd yn fersiwn 1 o'r asesiad hwn na fyddant yn effeithio ar yr ardaloedd sydd wedi'u heithrio yn gyfrifoldebau a nodwyd a allai fod yn gyfrifoldeb i Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w rheoli a'u gweithredu fel rhan o'u dyletswyddau. E.e. y gallu i elwa o.Ffermio Bro.

**Effaith Negyddol Uniongyrchol Bosibl ar eithrio ardaloedd o Bowys o'r ffin**
Mae rhai o ardaloedd Powys sydd wedi'u heithrio o'r ffin arfaethedig yn cynnwys dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a chymunedau ffermio a gwledig traddodiadol. Ni fydd cynllun newydd Ffermio Bro ar gyfer ffermwyr mewn Tirweddau Dynodedig a allai gael eu rheoli gan yr Awdurdod yn berthnasol i'r rhai y tu allan i'r ffin. Mae angen i ymgeiswyr fodloni meini prawf penodol i'r corff Tirweddau Dynodedig i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun sy'n cynnwys amod mewn perthynas â'r iaith Gymraeg fel yr eglurir yn fersiwn 1 o'r asesiad hwn.

Mae'r gefnogaeth ffermio newydd yng Nghymru drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy sydd ar gael i'r sector ffermio ledled Cymru hefyd yn cynnwys amodau i ddiogelu hanes, diwylliant a'r Iaith Gymraeg, gan gydnabod pwysigrwydd cynnal yr iaith a sicrhau ei bod yn parhau i ffynnu mewn cymunedau gwledig sy'n defnyddio ac yn siarad yr iaith ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd y cynllun hwn yn berthnasol i'r diwydiant ffermio yn ardal Powys sydd wedi'i heithrio o'r ffin arfaethedig.

**Effaith uniongyrchol ddibwys ar eithrio ardaloedd o Bowys o'r ffin**
Yr ardaloedd o Bowys sydd wedi'u heithrio yw ardaloedd lle mae 30 – 50% o'r gymuned yn siarad Cymraeg. Gall y niferoedd fod yn isel ond mae canrannau'r siaradwyr Cymraeg yn yr ardal hon yn uchel gyda phocedi o gymunedau Cymraeg eu hiaith lle defnyddir yr iaith fel iaith gymunedol. Mae'n annhebygol y bydd eithrio'r ardaloedd hyn yn effeithio ar y gymuned i ddefnyddio'r iaith neu drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Y rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau hyn yw'r cymunedau ffermio a gwledig traddodiadol lle mae'r iaith yn cael ei siarad yn naturiol ym mhob agwedd ar eu bywydau, sy'n annhebygol o newid oherwydd eithrio'r ardaloedd hyn o'r ffin arfaethedig.

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg Fersiwn 2 wedi'i gwblhau gan:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Lyn Williams | Cynghorydd Arbenigol yr Iaith Gymraeg | 6.8.25 |

## Welsh Language Impact Assessment Version 2 Reviewed by:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Keith Davies | Prif Ymgynghorydd Tirweddau Dynodedig | 11.8.2025 |

## Welsh Language Impact Assessment Version 2 Approved by:

| **Enw** | **Swydd** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Ash Pearce | Rheolwr Rhaglen Tirweddau Dynodedig / Arweinydd Tîm | 11.8.2025 |

## Adolygiad o asesiad (dyddiad i'w gadarnhau) – yn dilyn ymgynghoriad statudol

## Camau gweithredu a adolygwyd ac argymhellion

| **Y camau gweithredu ac argymhellion a nodwyd** | **Beth ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Beth fydd y canlyniad bwriadedig / y gwahaniaeth a fydd yn cael ei wneud?** | **Pwy sy'n gyfrifol?** | **Amserlen ac unrhyw oblygiadau o ran adnoddau a sylwadau** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

## Adolygiad o’r asesiad o’r effaith ar y Gymraeg a’i gymeradwyo, yn dilyn ymgynghoriad statudol (rhowch y dyddiad)

| **Enw** | **Swydd** | **Llofnod** | **Dyddiad** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Adolygiad o asesiad

(sicrhewch fod asesiad yn cael ei adolygu yn dilyn unrhyw ddiweddariad neu newid, a bod copi terfynol yn cael ei anfon i iaithgymraeg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk